# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**CYSAG**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD IAU, 9FED MAWRTH, 2017**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda,**
**Swyddfa'r Cyngor,**
**Caernarfon LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Glynda O'Brien**

**01341 424301**

**glyndaobrien@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd: 27.02.17)

# CYSAG

## AELODAETH (7)

## Plaid Cymru (4)

Y Cynghorwyr

Annwen Daniels — Gweno Glyn — E. Selwyn Griffiths

Sedd Wag

## Annibynnol (2)

Y Cynghorwyr

Thomas G. Ellis — Jean Forsyth

## Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd

Sedd Wag - Llais Gwynedd

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

### Cristnogion a Chrefyddau Eraill

| | |
|---|---|
| Disgwyl Enwebiad | Yr Eglwys Fethodistaidd |
| Dr W Gwyn Lewis | Eglwys Bresbyteraidd Cymru |
| Mrs Elizabeth Roberts | Undeb Bedyddwyr Cymru |
| Cynrig Hughes | Yr Annibynnwyr |
| Eirian Bradley Roberts | Yr Eglwys Gatholig |

### Athrawon

| | |
|---|---|
| Alwen Watkin | ASCL |
| Miriam A. Amlyn | NAS/UWT |
| Cathryn Davey | UCAC |
| Heledd Jones | NUT |
| Disgwyl Enwebiad | ATL |

### Aelodau Cyfetholedig

Gwyn Rhydderch
Parchedig Aled Davies

# R H A G L E N

## 1. GWEDDI

## 2. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 4. MATERION BRYS

I nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 5. COFNODION — 5 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 2 Tachwedd 2016.

(Copi’n amgaeedig)

## 6. HUNAN ARFARNU YSGOLION — 9 - 43

(a) I dderbyn, er gwybodaeth, ffurflen monitro adroddiadau Hunan Arfarniadau ysgolion ar gyfer Haf 2016.

(Copi’n amgaeedig)

(b) I gyflwyno crynodeb o Hunan Arfarniad yr ysgolion canlynol:

(i) Ysgol Bodfeurig
(ii) Ysgol Borthygest
(iii) Ysgol Bro Cynfal
(iv) Ysgol Cae Top
(v) Ysgol Llanbedr
(vi) Ysgol Maenofferen
(vii) Ysgol Penybryn (Tywyn)
(viii) Ysgol Rhiwlas
(ix) Ysgol Waunfawr

(Copïau’n amgaeedig)

7. **DIWEDDARIAD GAN YR YMGYNHGORYDD HER (MISS BETHAN JAMES)**

I dderbyn diweddariad gan yr Ymgynghorydd Her ar yr isod:

(i) Safonau Addysg Grefyddol
(ii) Adnoddau Addysg Grefyddol
(iii) Addysg Grefyddol a'r Cwricwlwm am Oes
(iv) Astudiaethau Crefyddol a TGAU /Safon Uwch

8. **CYNLLUN GWEITHREDU CYSAG GWYNEDD** 44

I ystyried y cynllun gweithredu.

(Copi'n amgaeedig)

9. **CYMDEITHAS CYSAGAU CYMRU** 45 - 57

(a) I dderbyn cofnodion drafft cyfarfod diwethaf Cymdeithas CYSAGau Cymru a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd 2016 yng Nghaerfyrddin.

(Copi'n amgaeedig)

(b) I ystyried enwebiadau ar gyfer Pwyllgor Gwaith Cymdeithas CYSAGau Cymru.

(Copi'n amgaeedig)

# C.Y.S.A.G. - CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL 02/11/16

**Yn Bresennol:** **Y Cynghorydd Selwyn Griffiths - Cadeirydd**

**Aelodau Cyngor Gwynedd :** Y Cynghorwyr Annwen Daniels, Tom Ellis, Gweno Glyn

**Cristnogion a chrefyddau eraill:** Cynrig Hughes (Yr Annibynnwyr), Dr Gwyn Lewis (Eglwys Bresbyteraidd Cymru), Mrs Elisabeth Roberts (Undeb Bedyddwyr Cymru)

**Athrawon:** Heledd Jones, Alwen Watkin

**Swyddogion:** Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau)

**GwE:** Miss Bethan James (Ymgynghorydd Her)

**Ymddiheuriadau:** Y Cyng. Jean Forsyth, Eirian Bradley Roberts (Yr Eglwys Catholig), Cathryn Davey (Undeb Athrawon) a Mai Bere (Swyddog Gwella Ansawdd Addysg Cynorthwyol).

**1. GWEDDI**

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd Selwyn Grifiths.

**2. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

(a) Cyfeiriwyd at e-bost a dderbyniwyd gan Mr Rheinallt Thomas, Aelod Cyfetholedig ar CYSAG Gwynedd yn hysbysu'r pwyllgor o'i fwriad i ymddiswyddo fel Aelod. Talwyd teyrnged i Mr Thomas gan y Cadeirydd am ei ymroddiad a'i gyfraniad i waith CYSAG ers blynyddoedd lawer. Bu Mr Thomas yn Aelod ers dechreuad CYSAG ac fe nodwyd bod y pwyllgor wedi elwa o'i brofiad a'i gefnogaeth brwd tuag at Addysg Grefyddol.

(b) Dymunwyd adferiad buan i Mrs Mai Bere, Swyddog Gwella Ansawdd Addysg Cynorthwyol, yn dilyn derbyn llawdriniaeth yn ddiweddar.

**Penderfynwyd: Gofyn i'r Swyddog Cefnogi Aelodau ysgrifennu at Mr Rheinallt Thomas i ddiolch iddo am ei wasanaeth clodwiw i CYSAG ac i ddymuno'n dda iddo i'r dyfodol.**

**3. ETHOL IS-GADEIRYDD**

**Penderfynwyd: Ail-ethol y Cynghorydd Gweno Glyn yn Is-gadeirydd y pwyllgor hwn am y flwyddyn 2016/17.**

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**5. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2016 fel rhai cywir.

**6. ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYSAG GWYNEDD 2015/16**

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Drafft CYSAG Gwynedd am y flwyddyn academaidd 2015-16, er cymeradwyaeth yr aelodau, cyn cyhoeddi’r adroddiad terfynol.

**(A)** Eglurodd Miss Bethan James mai pwrpas yr Adroddiad Blynyddol ydoedd crynhoi’r gwaith a gyflawnwyd gan CYSAG dros y flwyddyn flaenorol a phwysigrwydd bod yr argymhellion o fewn yr adroddiad yn cael eu dwyn i sylw’r Cabinet. Tywyswyd yr Aelodau drwy gynnwys yr adroddiad gan ddwyn sylw at y prif bwyntiau canlynol:

(i) Hunan arfarniadau – Llongyfarchwyd CYSAG Gwynedd am y drefn o dderbyn hunan arfarniadau gan ysgolion ac fe welwyd cam o welliant yn ansawdd yr hunan arfarniadau ac fe nodwyd werthfawrogiad i’r ysgolion am eu cwblhau. Cofnodir faint o hunan arfarniadau a dderbyniwyd dros dreigl o 5 mlynedd ac fe lwyddwyd i graffu rhwng 8 – 14 yn flynyddol yng Ngwynedd. Atgoffwyd y Pwyllgor y cytunwyd i enwi’r ysgolion ac fe gyfeiriwyd at yr agweddau sydd wedi derbyn sylw.

(ii) Asesiadau athrawon - tynnwyd sylw’r Pwyllgor at yr argymhellion ac fe nodwyd bod manylebau arholiadau TGAU a Safon Uwch ar wefan CBAC. Rhaid sicrhau bod ysgolion yn cael mynediad at arweiniad pynciol bwrdd arholi CBAC.

(iii) Mewn ymateb i ymholiad gan aelod ynglyn â chodi safonau canlyniadau bechgyn, nodwyd nad oedd y data yn cyfleu natur y cohort ymhob ysgol. Cytunwyd bod angen i’r argymhellion i Gyngor Gwynedd gynnwys cyfeiriad at gau’r bwlch rhwng bechgyn a marched. Nodwyd ymhellach bod deunydd AS yn apelio’n well i fechgyn.

(iv) Cyfeiriwyd at adroddiadau arolygu ESTYN gan nodi yn ddiffael yng Ngwynedd gwelir rhywfaint o gyfeirad at Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd. O safbwynt addoli ar y cyd, cydnabuwyd bod y farn gan amlaf yn nodi ei fod yn dda ac ambell ysgol yn dda iawn. Nodwyd bod rhai ysgolion yn cydweithio’n dda mewn partneriaeth gyda’r Capeli ac Eglwysi lleol wrth i ddisgyblion ddysgu am grefydd yn yr ardal leol. Yn ystod y drafodaeth ddilynol, roedd yr Aelodau o’r farn y dylid hepgor y tabl ym mhwynt 2.3.3 ac y dylid anfon llythyr i ESTYN i sicrhau defnydd o’r termau cywir o safbwynt addoli ar y cyd gan nodi eu bod yn croesawu’r cyfeiriadau at y gwaith partneriaethaol a wneir rhwng ysgolion a grwpiau crefyddol. Awgrymwyd ymhellach y byddai’n fuddiol ychwanegu cwestiwn ar y ffurflen hunan arfarnu fel bo ysgolion yn gallu nodi y gwaith partneriaethol a wneir gyda grwpiau crefyddol.

(v) O safbwynt monitro addoli ar y cyd, hyderir y gellir aelodau CYSAG dderbyn gwahoddiad gan ysgolion i fynychu sesiynau addoli ar y cyd. Nodwyd bod oddeutu tri chwarter aelodau CYSAG Môn wedi mynychu sesiynau ac wedi cynnal trafodaethau buddiol yng nghyfarfod CYSAG.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn, nodi a diolch am yr adroddiad blynyddol ynghyd a’r sylwadau a wnaed uchod.**

**(b)Anfon llythyr i ESTYN yn cyfleu dymuniad CYSAG Gwynedd i’r arolygwyr sicrhau defnydd o dermau cywir o safbwynt addoli ar y cyd a thynnu sylw a chydnabod y gwaith partneriaethol da a wneir rhwng ysgolion a grwpiau crefyddol mewn cymunedau.**

**7. ADDOLI AR Y CYD - HOLIADUR**

Cyflwynwyd holiadur a dreilawyd gan aelodau CYSAG Môn wrth iddynt fynychu sesiynau addoli ar y cyd mewn ysgolion.

Gofynnwyd i'r Aelodau a fyddent yn barod i fynychu sesiynau yn ysgolion Gwynedd ac a fyddent yn hapus i'w dreilau. Pwysleiswyd nad oedd angen i ysgolion baratoi yn benodol ar gyfer ymweliadau Aelodau CYSAG.

Mewn ymateb, nododd Aelodau unigol fel a ganlyn:

- Mai'r opsiwn a ffafriwyd fyddai bod ysgolion yn gwahodd Aelodau CYSAG i sesiwn boed hyn yn gyfnod yn y dosbarth neu sesiwn torfol.
- Bod perthynas dda iawn rhwng ysgolion a'r capel mewn ambell bentref a chyfeirwyd yn benodol at Ysgol Bro Hedd Wyn, Trawsfynydd ac Ysgol Cefn Coch, Penrhyndeudraeth

**Penderfynwyd: Gofyn I'r Swyddog Addysg Cynorthwyol mewn ymgynghoriad gyda'r Ymgynghorydd Her GwE i ofyn i'r ysgolion i wahodd Aelodau CYSAG i fynychu sesiynau addoli ar y cyd.**

**8. CYMDEITHAS CYSAGau CYMRU**

**(a) Cofnodion cyfarfod diwethaf**

Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfod diwethaf o'r Gymdeithas a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2016 yn Rhyl.

Tynnwyd sylw gan Ymgynghorydd Her GwE bod diffyg presenoldeb aelodau o GYSAGau ac fe annogwyd aelodau i fynychu pe gallent.

Nododd Aelod nad oedd y cofnodion yn ddwyieithog ac y dylid anfon gair at y Gymdeithas y dylid cyflymu'r broses o'u cyfieithu fel bo modd eu cyflwyno yn ddwyieithog fel rhan o Raglen CYSAG Gwynedd.

Cyfeiriodd Ymgynghorydd Her GwE at y prif faterion a drafodwyd yn y cyfarfod uchod:

- Addysg Grefyddol a'i le o fewn y cwricwlwm newydd
- Canllawiau ar Reoli Hawl Tynnu'n ol o Addysg Grefyddol a ddarparwyd gan Gill Vaisey

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

(b) I nodi y cynhelir cyfarfodydd nesaf y Gymdeithas uchod ar:

- 18 Tachwedd 2016 yng Nghaerfyrddin
- 3 Mawrth 2017 yn Brynbuga, Sir Fynwy

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

## 9. DIWEDDARIAD YMGYNGHORYDD HER GwE

Adroddwyd:

(a) Bod y Rhanbarth wedi adnabod athrawon arweiniol Addysg Grefyddol a fyddai'n gweithio gydag athrawon Gwynedd a Môn ar gyfer paratoi at manyleb newydd TGAU.
(b) O safbwynt y Cwricwlwm newydd ni dderbyniwyd arweiniad hyd yma ond roedd swyddogion wedi dechrau gwaith paratoadol fel bo modd cyflwyno egwyddorion ac arweiniad lleol o "Be' sy'n gwneud addysg grefyddol yn dda"

**Penderfynwyd: Derbyn, nodi a diolch i'r Ymgynghorydd Her GwE am ei gwaith gan nodi bod ei harweiniad i aelodau CYSAG yn werthfawr dros ben.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00 pm a daeth i ben am 3.20 pm

**CADEIRYDD**

**Monitro Haf 2016 - Hydref 2016**

Gofynnir i bob ysgol ddarparu adroddiad hunan-arfarnu ar safonau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd ar gyfer CYSAG Gwynedd. Ceisir sicrhau fod y rhaglen monitro yn cyd-fynd â rhaglen arolygu Estyn. Mae'r adroddiadau a dderbynnir ynghlwm ynghyd â chrynodeb o'r canfyddiadau yn y tablau isod:

| **Ysgolion Uwchradd** | **Adroddiad HA** | **Canfyddiad Ysgol** | | | **Adroddiad Estyn** | **Dyddiad Arolygiad** | **Canfyddiad Estyn** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **CA3** | **CA4** | **Addoli ar y cyd** | | | |
| | | | | | | | |

| **Ysgolion Cynradd** | **Adroddiad HA** | **Canfyddiadau Ysgol** | | | **Adroddiad Estyn** | **Dyddiad Arolygiad** | **Canfyddiad Estyn** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **CA1** | **CA2** | **Addoli ar y cyd** | | | |
| **Haf 2016** | | | | | | | |
| Waunfawr | ✓ | Da | Da | Da | 23/06/16 | 18/04/16 | **Da** |
| Bro Cynfal | ✓ | Da | Da | Da | 13/07/16 | 09/05/16 | **Da** |
| Cae Top | ✓ | Rhagorol | Da | Da | 20/07/16 | 05/16 | **Da** |
| | | | | | | | |
| **Hydref 2016** | | | | | | | |
| Bodfeurig | ✓ | Da | Da | Da | 19/9/16 | 22/11/16 | **Da** |
| Llanbedr | ✓ | Digonol | Digonol | Da | 19/9/16 | 22/11/16 | **Da** |
| Maenofferen | ✓ | Da | Da | Da | 6/12/16 | 10/16 | **Digonol** |
| Rhiwlas | ✓ | Da | Da | Da | 6/12/16 | 10/16 | **Da** |
| Borth-y-gest | ✓ | Da | Da | Da | 13/12/16 | 10/16 | **Da** |
| Penybryn Tywyn | ✓ | Da | Da | Da | 20/12/16 | 17/10/16 | **Da** |
| | | | | | | | |
| **Gwanwyn 2017** | | | | | | | |
| Talysarn | | | | | 04/04/17 | 30/01/17 | |

| **Ysgolion Arbennig** | **Adroddiad HA** | **Canfyddiad Ysgol** | | | **Adroddiad Estyn** | **Dyddiad** | **Canfyddiad Estyn** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **CA1** | **CA2** | **Addoli ar y cyd** | | | |
| | | | | | | | |

Yn ystod y cyfnod tymor yr **Haf 2016** cafodd **3 ysgol gynradd**, 0 ysgol uwchradd a 0 ysgol arbennig eu harolygu gan Estyn.

Yn ystod y cyfnod tymor y **Hydref 2016** cafodd **6 ysgol gynradd**, 0 ysgol uwchradd a 0 ysgol arbennig eu harolygu gan Estyn. Rhagwelir y bydd 1 ysgol arall yn ogystal ag 0 ysgol uwchradd yn cael eu harolygu yn ystod y tymor presennol.

Mae'r dyfyniadau a ganlyn wedi'u cymryd o adroddiadau arolygu Estyn ac yn cyfeirio at Addysg Grefyddol (annhebygol), addoli ar y cyd, datblygiad moesol ac ysbrydol ond hefyd agweddau eraill megis addysg bersonol, diwylliannol a chymdeithasol:

**Sylwadau Estyn:**

**Tymor yr Haf 2016**

**Ysgol Waunfawr (Ebrill 2016) Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn darparu'n effeithiol ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol,cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Mae gweithgareddau ar draws y cwricwlwm, rhaglenni preswyl a chysylltiadau gydag ystod o asiantaethau yn cyfrannu'n gynhyrchiol at hyn. Er enghraifft, mae'r ysgol yn trefnu teithiau cerdded a chyrsiau medrau awyr agored gydag Antur Waunfawr i hybu ymwybyddiaeth y disgyblion o'r amgylchedd ffisegol a threftadaeth eu cynefin.

**Ysgol Cae Top (Mai 2016) Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn cael ei hyrwyddo'n llwyddiannus. Mae ffocws cryf yr holl staff ar hyrwyddo disgwyliadau gwerthoedd uchel yn annog disgyblion i gymryd cyfrifoldeb dros eu gweithredoedd. Mae trefniadau effeithiol yn bodoli i gefnogi iechyd a lles disgyblion. Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r ysgol yn hybu dealltwriaeth y disgyblion o bwysigrwydd ymarfer corff a chadw'n heini yn llwyddiannus trwy amrywiaeth eang o gyfleoedd yn ystod amser ysgol ac yn allgyrsiol.

**Ysgol Bro Cynfal (Mai 2016) Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gyfeillgar a gofalgar ac mae ganddi drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed iach. Trwy ystod eang o weithgareddau corfforol yn ystod yr awr ginio ac mewn clybiau ar ôl yr ysgol, caiff disgyblion amrywiaeth o gyfleoedd i gynyddu eu lefelau iechyd a ffitrwydd. Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gyda nifer o wasanaethau arbenigol fel y therapydd iaith a'r heddwas lleol. Mae'r cysylltiadau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau lles disgyblion. Trwy wasanaethau rheolaidd a chyfleoedd i fyfyrio, mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn llwyddiannus.

**Tymor yr Hydref 2016**

**Ysgol Bodfeurig (Medi 2016) Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae ansawdd da'r gofal, y cymorth a'r arweiniad yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau a lles y disgyblion. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach, ac ar gyfer sicrhau bod disgyblion yn deall sut i fod yn ddiogel. Cefnogir hyn yn dda drwy ddigwyddiadau fel y siop ffrwythau amser egwyl a chlybiau chwaraeon.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus drwy ddarparu gwasanaethau cyd-addoli rheolaidd a thrwy weithgareddau'r cwricwlwm. Mae darpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol o ansawdd uchel ac yn golygu bod disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o werthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch tuag at eraill. Fe amlygir hyn yn glir yn y ffordd maent yn ymdrin â'i gilydd.

**Ysgol Llanbedr (Medi 2016)** **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a gofalgar lle mae disgyblion yn cael eu meithrin i fod yn ymwybodol o bwysigrwydd gofalu am ei gilydd a dangos parch at eraill, yn enwedig y rhai sy'n llai ffodus na nhw eu hunain. Mae trefniadau priodol yn bodoli ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae pwysigrwydd cadw'n heini a bwyta'n iach yn cael ei bwysleisio'n effeithiol drwy'r cwricwlwm a gweithgareddau allgyrsiol, fel y clybiau chwaraeon a garddio. Mae'r cyfnodau addoli ar y cyd yn cyfrannu'n effeithiol at hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion.

**Ysgol Maenofferen (Hydref 2016)** **Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a gofalgar. Mae'n hyrwyddo iechyd a lles disgyblion yn llwyddiannus ac yn cynnig cyfleoedd amrywiol i hybu iechyd a ffitrwydd disgyblion y tu mewn a thu allan i oriau'r ysgol. Mae trefniadau effeithiol ar gyfer hyrwyddo disgyblion i fwyta ac yfed yn iach. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y parch a ddangosant at ei gilydd a thuag at oedolion. Mae ystod dda o weithgareddau sy'n hybu disgyblion i fyfyrio. Mae gweithgareddau cwricwlaidd addas yn eu hannog i ddatblygu synnwyr o chwilfrydedd trwy fyfyrio ar eu bywydau a'u credoau eu hunain a phobl eraill. Mae gwasanaethau ysgol ac amseroedd cylch yn rhoi cyfleoedd buddiol i ddisgyblion feithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, goddefgarwch, tegwch a pharch am wirionedd a chyfiawnder yn effeithiol.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf a chefnogol gyda nifer o wasanaethau arbenigol ac asiantaethau allanol, fel yr heddlu, seicolegwyr a'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae staff yn cydweithio'n llwyddiannus â'r asiantaethau hyn er mwyn sicrhau cymorth ac arweiniad o ansawdd uchel i ddisgyblion a rhieni a chefnogi lles disgyblion yn dda.

**Ysgol Rhiwlas (Hydref 2016)** **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer bwyta ac yfed yn iach, a sicrhau bod y disgyblion yn deall pwysigrwydd cadw'n heini. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus drwy ddarparu gwasanaethau cyd-addoli rheolaidd a thrwy weithgareddau'r cwricwlwm. Gwahoddir ymwelwyr yn gyson i arwain yr addoli ac mae cyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio ar bynciau cyfoes, megis sut i fod yn ffrind da i eraill. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y parch a ddangosant at ei gilydd a thuag at oedolion. Mae astudiaethau ac ymweliadau yn eu hardal leol yn cyfrannu'n effeithiol iawn at ddealltwriaeth y disgyblion o'u hanes a'u hetifeddiaeth.

**Ysgol Borth y Gest (Hydref 2016)** **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus, ddiogel a chynhwysol, sy'n hyrwyddo iechyd a lles y disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r athrawon yn hybu dealltwriaeth y disgyblion o bwysigrwydd ymarfer corff yn effeithiol gan ddarparu amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol gwerthfawr. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed iach. Mae'r ysgol yn darparu'n effeithiol ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi mabwysiadu gweithdrefnau cadarn i godi presenoldeb sydd wedi arwain at welliant; er hyn, nid ydynt hyd yma wedi cael digon o effaith ar gyfraddau presenoldeb dros y hir dymor.

**Ysgol Penybryn,Tywyn (Hydref 2016)** **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ddiogel a gofalgar. Mae wedi ei threfnu'n effeithiol, ac mae'r staff yn cyfrannu'n dda at ddatblygu lles y disgyblion. Mae staff yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu eu hymwybyddiaeth o agweddau ysbrydol a moesol mewn sesiynau amrywiol rheolaidd, gan gynnwys amser cylch, gwasanaethau dosbarth ac ysgol gyfan. Atgyfnerthir hyn yn effeithiol gan sesiynau gyda'r heddwas cymunedol, er enghraifft. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd addas a rheolaidd o wasanaethau asiantaethau allanol, fel y swyddog lles a'r seicolegydd addysg, i gefnogi disgyblion unigol. Serch hynny, dydy'r gweithdrefnau presennol ddim wedi cael digon o effaith hyd yma ar godi cyfradd presenoldeb yr ysgol na gwella prydlondeb ychydig iawn o ddisgyblion.

Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau da ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae cynlluniau'r ysgol yn sicrhau bod disgyblion yn deall pwysigrwydd gwneud ymarfer corff yn rheolaidd a chadw eu hunain yn ddiogel.

**Enw'r Ysgol: Ysgol Bodfeurig**

**Cyfeiriad: Sling, Tregarth, Bangor ,Gwynedd.**

| **Addysg Grefyddol** |
|---|

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi addysg grefyddol, arfarniadau o waith addysg grefyddol disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Oes enghreifftiau da o sgiliau llythrennedd, rhifedd a TGCh y disgyblion o fewn cyd destun addysg grefyddol?

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol; Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011),

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu, grwpiau o ddisgyblion.**

- Mae safonau y rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol mewn Addysg Grefyddol yn dda .
- Mae arferion craffu ar lyfrau yn dangos bod bron pob un disgybl yn elwa o ystod eang o brofiadau Addysg Grefyddol a bod y profiadau hyn yn cyfrannu at gyfoethogi a dyfnhau dealltwriaeth y rhan fwyaf o'r disgyblion hynny yn llwyddiannus.
- Mae adroddiad Estyn 2016 yn nodi bod safonau lles , emosiynol, moesol ac ysbrydol y disgyblion yn dda.
- Mae portffolio o waith addysg grefyddol yr ysgol yn dangos bod traws doriad effeithiol o weithgareddau llythrennedd trawsgwricwlaidd yn cael eu cyflwyno i'r disgyblion sy'n cydblethu'n effeithiol gyda gofynion Y maes Llafur Cytûn Lleol.

**Materion i gael sylw**

| **Rhagorol** | | **Da** | ✓ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Ystyriwch i ba raddau mae'r gweithgareddau addysg grefyddol yn datblygu sgiliau llythrennedd, rhifedd a TGCh y disgyblion.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a chydlynwyr i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol, Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011).

**Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau**

- Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer cynllunio, hyrwyddo a datblygu dealltwriaeth o agweddau Addysg Grefyddol yn dda. Mae amser yn cael ei neilltuo'n wythnosol o fewn pob dosbarth ar draws yr ysgol i gyflwyno agweddau penodol o Addysg Grefyddol i'r disgyblion sy'n briodol i oedran a gallu.
- Mae cynlluniau tymor canolig manwl wedi eu paratoi ar drws yr ysgol sy'n briodol i oedran a gallu.
- Mae gwersi Addysg Grefyddol wedi eu hamserlennu ar draws yr ystod oedrannau ac mae gan bron bob un o'r disgyblion ddealltwriaeth cyson dda o Gristnogaeth a chrefyddau eraill.
- Mae gan bron pob un o'r disgyblion ddealltwriaeth dda o grefyddau eraill ac o ddiwylliannau eraill yn y byd.
- Mae llawer o ddisgyblion CA2 yn llwyddo i drafod cwestiynau mawr yn ddeallus ac aeddfed.
- Mae bron pob un o ddisgyblion yr ysgol yn gwerthfawrogi eu rôl a'u cyfrifoldeb fel dinasyddion byd eang ac yn deall pwysigrwydd mentrau megis Masnach Deg a gwaith elusennau megis Comic Relief/ Water Aid/ Children in Need a'r effaith maent yn gael ar fywydau eraill.
- Mae'r Cyngor Ysgol yn cyfrannu at weithgarwch dyddiol yr ysgol ac yn chwarae rhan blaenllaw yn pennu blaenoriaethau y cynlluniau a gogwydd gwaith elusennol yr ysgol e.e. codi arian at Cronfa Logan Sellers a mudiadau iechyd meddwl yr ifanc.
- Mae agweddau a linynnau wedi eu mapio ar draws yr ystod ac wedi eu cyfuno gyda Cwricwlwm Cornerstones yr ysgol er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad yn y sgiliau a dealltwriaeth y disgyblion.
- Mae Addysg Grefyddol yn greiddiol i gynlluniau'r ysgol ac yn cael ei amserlennu ar draws yr ystod yn wythnosol.

- Mae Cynllun Gwaith Addysg Grefyddol wedi ei fabwysiadu gan yr ysgol ac yn fodd effeithiol o sicrhau bod llythrennedd yn cael ei addysgu'n drawsgwricwlaidd gan arwain at godi safonau yn barhaus yn yr ysgol.
- Mae Addysg Grefyddol yn cael ei gyfuno yn llwyddiannus gyda mentrau ac agweddau penodol o ADCDF megis Masnach Deg ac Ailgylchu.Effaith hyn yw llwyddiant yr ysgol i dderbyn achrediad Gwobr Platinwm Ysgol Eco . Mae'r themâu hyn yn cael eu cyflwyno ac wedi gwreiddio ar draws yr ysgol fel bod pob disgyblion yn cael datblygu ymagweddau Cristnogol penodol e.e. wardeiniaid y byd . Mae cysylltiadau gyda sefydliadau penodol yn y gymuned wedi cael eu sefydlu.
- Mae adroddiad Estyn 2016 yn nodi *Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol , moesol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus drwy ddarparu gwasanaethau cyd-addoli rheolaidd a thrwy weithgareddau'r cwricwlwm.*

**Materion i gael sylw**

| **Rhagorol** | | **Da** | ✓ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Addoli ar y Cyd

### Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?

| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | **Ydy** | **Nac ydy** |
|---|---|---|

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94), Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru, Mehefin 2012).

**Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

- Mae trefniadau yr ysgol ar gyfer addoli ar y cyd yn dda ac yn cydymffurfio'n llwyr gyda canllawiau a gofynion statudol.
- Mae ymatebion ac ymddygiad bron pob un o'r disgyblion i'w canmol yn ystod y cyfarfodydd ac mae'n fodd o ddatblygu ymdeimlad o berthyn a chyd-berchnogaeth yn yr ysgol.
- Mae polisi cyd-addoli yr ysgol yn weithredol ac yn wybyddus i holl gymuned yr ysgol.
- Mae nodweddion canolog cyd-addoli yn cael eu cynnwys ymhob addoliad ac wedi cael effaith gadarnhaol ar naws y cyfnodau hyn yn yr ysgol yn y ddau gyfnod allweddol.
- Mae cyfranogiad y disgyblion yn rhan annatod o gyd-addoliad yr ysgol. Mae llais y plentyn yn cael man blaenllaw yn y cyd-addoli gyda nifer o esiamplau o blant yn mynd ati i gyd-lunio eu gwasanaeth ddosbarth. Mae presenoldeb y rhieni yn y gwasanaethau a cyflwyniadau hyn yn drefn sydd wedi gwreiddio'n arferiad naturiol yn yr ysgol.
- Mae Gwasanaeth Diolchgarwch a Pasg blynyddol yr ysgol sy'n cael ei gynnal yn yr ysgol . Llwyddwyd i adlewyrchu cymeriad Cristnogol yr wyl drwy gyfrannu i Fanc Bwyd yn y gymuned .
- Mae gwasanaethau dosbarth sy'n rhan greiddiol o wasanaeth gwobrwyo wythnosol yr ysgol wedi sicrhau a meithrin cyswllt agos gyda cymuned y rhieni ac yn fodd o'u gwneud yn ymwybodol o ddoniau a gweithredoedd dyddiol yr ysgol. Mae'r cyswllt yma wedi cyfrannu at ethos gartrefol yr ysgol ble chwaraeir gwerthoedd Cristnogol megis caredigrwydd, maddeuant a goddefgarwch ran blaenllaw. Mae wedi llwyddo i dynnu cymdeithas ehangach yr ysgol i mewn i werthfawrogi llwyddiannau plant gan ychwanegu at greu awyrgylch werthfawrogol o'n gilydd a'r bartneriaeth sy'n bodoli rhwng yr ysgol a'r cartref.
- Mae pob athro yn ei dro yn cymryd cyfrifoldeb am arwain yr addoliad sy'n greiddiol i'r weledigaeth o arweinyddiaeth dosranedig y pennaeth. Mae hyn wedi arwain at gryfhau atebolrwydd pob aelod o staff yr ysgol am gyd-addoli.
- Strwythur bendant yr amserlen cyd-addoli wedi arwain at ddatblygu yr ymdeimlad bod y gwasanaeth yn gyfnod arbennig o ymdawelu a myfyrio.
- Mae adroddiad Estyn 2016 yn nodi ***Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol , moesol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus drwy ddarparu gwasanaethau cyd-addoli rheolaidd.***

**Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

| **Rhagorol** | | **Da** | ✓ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Llofnod: Alison Halliday (Pennaeth) Dyddiad: 13.1.17

**Enw'r Ysgol:** **Borth y Gest** **Cyfeiriad:Borth y Gest, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UF**

## Addysg Grefyddol

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?**

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion, asesiadau athrawon a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol; Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009).

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyd-dynnu'n dda â'i gilydd ac mae safonau ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda. Maent yn ofalus o'i gilydd ac yn dangos parch tuag at blant, staff ac ymwelwyr. Mae'r plant yn dangos safonau da yn eu hymwybyddiaeth ysbrydol a moesol. Maent yn cyfrannu'n effeithiol ac yn bwrpasol, gan ddangos parch at ei gilydd ac eraill.

Mae'r Cyngor Ysgol yn trefnu ymgyrchoedd i gasglu arian i elusennau yn rheolaidd – e.e. Plant Mewn Angen, Canser MacMillan, JDRF

Trwy astudio tychinebau byd eang mae'r disgyblion yn trafod cyfiawnder a thegwch yn effeithiol.

Gall disgyblion adrodd straeon crefyddol yn effeithiol drwy eu hysgrifennu a chwarae rôl. Maent yn gwybod llawer o straeon crefyddol ar y cof a gallent ddisgrifio sut y mae pobl yn ymarfer eu ffydd

Yn y sesiynau addoliad torfol rheolaidd, mae'r plant yn myfyrio ac yn gweddio o'r frest gan ddangos empathi, goddefgarwch a chonsyrn am eraill.

Mae ganddynt werthfawrogiad da o gredoau eraill yn ogystal â Christnogaeth.

Mae'r ysgol yn llwyddo i baratoi disgyblion sy'n cyflawni'n dda

**Safonau medrau llythrennedd, rhifedd, TGCh a meddwl**

**<u>Medrau llythrennedd:</u>**

**Siarad a gwrando**

Mae mwyafrif o ddisgyblion yr ysgol yn siarad yn hyderus yn y ddwy iaith. Canran isel o ddisgyblion yr ysgol sy'n siarad Cymraeg adref, er hynny gallent amrywio eu sgwrs mewn sefyllfaoedd gwahanol

Er bod y mwyafrif o ddisgyblion yn cyrraedd yr ysgol gyda sgiliau llafaredd Saesneg yn llawer uwch na'r Gymraeg mae data diwedd Cyfnod Allweddol 2 yn adlewyrchu gwaith caled yr ysgol i gysoni perfformiad ar draws y ddwy iaith.

**Darllen**

- Gall y rhan fwyaf o ddisgyblion drafod yr hyn maent wedi ei ddarllen, gan ddangos dealltwriaeth o destunau amrywiol. Maent yn medru mynegi barn ar destunau.
- Yn y Cyfnod Sylfaen datblygir dealltwriaeth gadarn o ffoneg er mwyn adeiladu geiriau a datblygu sgiliau darllen. Defnyddir Tric a Chlic ers tymor y gwanwyn 2016 ac mae'n cael effaith gadarnhaol ar safonau gyda llawer o ddisgyblion y dosbarth Derbyn yn gwneud cynnydd da gyda'u darllen.

**Ysgrifennu**

- Gwelir tystiolaeth yn llyfrau disgyblion bod safon ysgrifennu ar draws y cwricwlwm o'r un safon a'r hyn y gyflawnir mewn gwersi Cymraeg a Saesneg. Defnyddir technegau Geirio Gwych yn effeithiol yn i ddatblygu ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm. Mae ansawdd gwaith y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda yn y ddwy iaith.
- Wrth gynllunio sicrheir bod mathau amrywiol o ysgrifennu yn cael eu cyflwyno'n dymhorol. Cyflwynir y mathau mewn ffurfiau addas, a gwelir yn llyfrau'r disgyblion bod traws doriad o fathau o ysgrifennu wedi eu hastudio. Mae disgyblion yn ysgrifennu'n estynedig yn rheolaidd, gyda chamau priodol sy'n arwain at ddarnau estynedig.
- Mae ysgrifennu estynedig trawsgwricwlaidd wedi datblygu'n dda, gyda thasgau o ansawdd da i weld yn llyfrau'r mwyafrif o ddisgyblion. Mae cyd-bwysedd ieithyddol ac amrywiaeth o ffurfiau i'w gweld. Drwy'r ysgol mae mwy o gyfleoedd i ysgrifennu'n estynedig ac yn Ml 2, Bl 5 a 6 mae ansawdd gwaith llawer o ddisgyblion yn dda.

**Medrau Rhifedd**

Gall y rhan fwyaf o ddisgyblion drosglwyddo'r hyn maent wedi ei ddysgu mewn gwersi Mathemateg ar draws y cwricwlwm. Mae'r disgyblion yn derbyn nifer o gyfleoedd i ddatblygu rhifedd, ac mae gwaith y disgyblion yn cyfateb i ofynion y Fframwaith Rhifedd, ac yn addas ar gyfer oedran a gallu. Rhoddir tasgau sy'n herio pob grŵp o ddysgwyr, gan gynnwys MaTh.

**Medrau TGCh**

**<u>Medrau TGCh:</u>**

- Mae'r mwyafrif o'r disgyblion yn hyderus wrth ddefnyddio TGCH (cyfrifiadur ac iPads) i gywain gwybodaeth oddi ar y we yn drawsgwricwlaidd. Ar frig yr ysgol gall y rhan fwyaf o ddisgyblion ddefnyddio appiau megis pages a Keynote, yn effeithiol gan gyfuno a mewnfudo lluniau, fideos a cherddoriaeth i greu cyflwyniad. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o raglenni prosesu geiriau ar gyfrifiaduron megis Word a rhaglenni i gyflwyno megis Publisher.
- Defnyddir rhaglen 2simple yn y Cyfnod Sylfaen I greu pictogramau, graffiau bloc a siartiau bar. Mae gwaith y disgyblion yn addas ar gyfer oedran a gallu.
- Yn CA2 mae disgyblion yn defnyddio TGCh I lunio siartiau megis siart cylch a graffiau. Gallent greu ac archwilio cronfeydd data yn effeithiol gan ddefnyddio Hwb+.
- Gall disgyblion ar frig yr ysgol ddefnyddio rhaglen Excel i greu taenlen a llunio graff o'r data.
- Gall y disgyblion ddefnyddio rhaglenni codio megis Scratch a j2code ar Hwb+

**<u>Medrau meddwl</u>**

Datblygir medrau meddwl ar draws yr ysgol, mae AaGD ar waith drwy'r ysgol. Mae disgyblion cymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu dysgu wrth iddynt fynd drwy'r ysgol, maent yn ran o'r broses o bennu MPLl ar draws yr ysgol. Mae disgyblion yn asesu gwaith cyfoedion. Mae disgyblion hŷn yn adnabod y sgiliau maent wedi eu datblygu mewn tasgau ac mae disgyblion yn hunan asesu'n rheolaidd.

**Materion i gael sylw**

Parhau i ddatblygu AaGD – sicrhau cysondeb yn y MPLl a osodir ar gyfer ysgrifennu

Sicrhau bod cyfleoedd cyson i ddisgyblion wella darnau o waith ac ymateb i adborth

Sicrhau bod yr adborth a roddir yn ansoddol

Parhau i ddatblygu gwybodaeth am grefyddau gwahanol gan ganolbwyntio am ddysgu am negeseuon crefyddau ar sut i fyw yn dda.

Parhau i ddatblygu sgiliau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn drawsgwricwlaidd

| Rhagorol | | Da | X | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol? |
|---|
| • Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.<br>• Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.<br>• Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.<br>• Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol). |
| **Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol, Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009. |
| **Yr addysgu mewn addysg grefyddol: cynllunio ac amrediad o strategaethau**<br>Rydym yn cynllunio'n addas ar gyfer y pwnc. Caiff y gwersi eu cynllunio'n ofalus i ennyn diddordeb a chynnig ystod o brofiadau a gweithgareddau gwerthfawr a diddorol. Mae cynlluniau'r athrawon wedi'u cynllunio'n fanwl a'u diffinio ar gyfer medrau a'r Fframweithiau. Mae' pwnc yn cael ei amserlennu'n addas yn yr ysgol.<br>Defnyddir nifer o strategaethau addysgu amrywiol wrth addysgu Addysg Grefyddol i gymell diddordeb y disgyblion ac mae'r disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol gan ddangos boddhad. Cyfoethogir profiadau plant trwy gyfuniad o waith da ar ac oddi ar y safle trwy ymweliadau amrywiol a gweithgareddau allgyrsiol (e.e. ymweliad blynyddol i Coleg y Bala i ddysgu am y Pasg).<br><br>Gwneir defnydd cyson o Asesu ar gyfer Dysgu i gyfoethogi'r ddarpariaeth. Mae strategaethau AaGD wedi cael sylw fel un o brif flaenoriaethau'r CDY yn 2015/16. Mae'r plant yn datblygu i bennu eu m.p.ll. eu hunain i dasgau. Mae'r plant i gyd, gan gynnwys y rhai yn y CS yn adfyfyrio ar ddiwedd tasgau ffocws gan ddadansoddi os ydynt wedi llwyddo yn eu tasg.<br><br>Drwy addysgu'n thematig gan gynnig cyfleoedd i'r disgyblion arwain eu dysgu eu hunain, mae gwaith cynllunio i addysgu Addysg Grefyddol fel pwnc yn sicrhau bod cwricwlwm cyfan yr ysgol yn cael ei gyfoethogi – e.e. drwy addysgu am Ddaearyddiaeth yn y newyddion a hanes enwogion e.e. Martin Luther King, Y Fam Teresa, Nelson Mandela |
| **Darpariaeth ar gyfer y medrau: llythrennedd, rhifedd, TGCh a meddwl**<br><br>**Darpariaeth ar gyfer medrau**<br><br>• Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r medrau'n dda ar draws yr ysgol ac yn cael ei hymgyrffori'n effeithiol ym mhrofiadau pob un o'r disgyblion<br>• Datblygir medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm mewn gweithgareddau sy'n addas ar gyfer oedran a gallu. Gwahaniaethir tasgau a gweithgareddau yn effeithiol i ddisgyblion ADy a MaTH. Roedd prosesau craffu 2015-16 yn dangos bod y mwyafrif o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da mewn gwersi, gan gaffael sgiliau newydd.<br>• Dadansoddir profion cenedlaethol i adnabod grwpiau o ddysgwyr sy'n cael anawsterau, a disgyblion MaTH.<br>• Dengys adroddiadau grwpiau targed y defnyddir cymhorthyddion yn effeithiol i dargedu disgyblion sydd â thrafferthion mewn agweddau megis darllen, gan weithio gyda'r disgyblion ar dargedau y CAU. Rhoddir sylw i ddisgyblion sydd ag anawsterau mewn rhifedd mewn grwpiau bychain.<br><br>**Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLlRh)** |

- Cynllunnir yn effeithiol ar gyfer y FfLlRh yn drawsgwricwlaidd, mae gweithgareddau a thasgau o ansawdd da yn datblygu'r sgiliau ac yn ymateb i ofynion y FfLlRh. Mae craffu rheolaidd yn sicrhau bod gwaith y disgyblion o safon a thraethiad addas, ac yn cwrdd â gofynion diweddar.
- Sicrheir bod cyfleoedd i ail-ymweld er mwyn dyfnhau dealltwriaeth, gyda sgiliau wedi eu hymarfer yna eu ddatblygu'n drawsgwricwlaidd
- Gwelir cysylltiad clir rhwng gwaith y disgyblion a'r FfLlRh

**Medrau cyfathrebu:**

- Mae athrawon yn cynllunio'n ofalus i ddatblygu gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu. Mae'r cynlluniau tymor hir yn nodi mathau o ysgrifennu a'r ffurfiau. Sicrheir bod ysgrifennu estynedig yn digwydd ar draws y cwricwlwm, gyda threfn o disgyblion yn gwella darnau o waith ac yn ail-ddrafftio yn gyson.

**Medrau rhif**

- Cynllunnir yn effeithiol i ddatblygu rhifedd ar draws y cwricwlwm, gyda cysylltiadau clir i weld gyda'r FfRh yn y cynlluniau.
- Sicrheir bod sgiliau wedi eu cyflwyno yn y gwersi Mathemateg ac yna'n cael eu datblygu'n drawsgwricwlaidd.
- Mae'r tasgau cyfoethog yn llyfrau'r disgyblion ar frig yr ysgol yn cyfateb i ofynion y FfRh.
- Yn dilyn arweiniad gan Bartner Cynorthwyol ar gynllunio rhifedd yn drawsgwricwlaidd gwelir tasgau o ansawdd gwell yn llyfrau'r disgyblion.

**Medrau TGCh**

- Gwelir dilyniant priodol yn sgiliau TGCh disgyblion o'r CS i CA2, ac o flwyddyn 3 i 6.
- Defnyddir rhaglenni megis 2simple yn y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol, yna ipads a gliniaduron i bwrpas penodol yn CA2.
- Mae'r ddarpariaeth yn sicrhau bod gan bron oll y disgyblion fedrau TGCh cadarn ar ddiwedd CA2.

**Medrau Meddwl**

- Mae athrawon yn cynllunio'n fwy effeithiol i ddatblygu meddwl, gan sicrhau mwy o gyfleoedd i ddisgyblion wella gwaith. Mae ansawdd adborth ar waith disgyblion wedi gwella drwy'r ysgol, gyda camau nesaf clir i'w gweld, yn arbennig yng ngwaith ar frig yr ysgol.
- Drwy fabwysiadu agweddau Geirio Gwych mae athrawon wedi trosglwyddo mwy o gyfrifoldeb i ddisgyblion i wella'u gwaith, ac mae'r broses wedi datblygu medrau meddwl yn fwy effeithiol.
- Sicrheir bod y disgyblion yn chwarae rhan fwy canolog wrth bennu MPLl drwy'r ysgol, ac mae'r athrawon yn datblygu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion hunan asesu ac asesu gwaith cyfoedion.
- Rhoddir mwy o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb dros eu gwaith eu hunai drwy gynllunio a gwerthuso.

**Materion i gael sylw**

Sicrhau digon o adnoddau ac artiffactau i addysgu'r plant am greodau ac arferion eraill.
Parhau i chwilio am gyfleoedd i addysgu Addysg Grefyddol yn drawsgwricwlaidd.
Parhau i geisio adnabod cyfleoedd i ddatblygu sgiliau Llythrennedd a Rhifedd drwy Addysg Grefyddol
Parhau i ddatblygu agweddau o Asesu ar Gyfer Dysgu megis meddylfryd twf
Codi safonau llafaredd a darllen i gyrraedd lefelau uwch

| Rhagorol | | Da | X | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

| Addoli ar y Cyd |
|---|

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?** | | |
|---|---|---|
| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | **Ydy** | **Nac ydy** |
| **Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94), Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru, Mehefin 2012). | | |
| **Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**<br>Defnyddir ystod eang o strategaethau effeithiol yn ystod gwasnaethau boreol i hybu datblygiad ysbrydol y disgyblion. Mewn sesiynau addoli ar y cyd sicrheir bod awyrgylch a naws addas a rhoddir rhan weithredol i'r plant a'u hannog i fyfyrio, a dod yn ddigon hyderus i weddio'n syml o'r frest. Adroddir Gweddi'r Arglwydd yn mhob gwasanaeth torfol.<br><br>Gwahoddir aelodau o'r gymuned yn rheolaidd i roi gwasanaethau crefyddol i'r plant – e.e. Nia o Coleg y Bala.<br><br>Rydym yn sicrhau bod agweddau moesol, yn ogystal ac ysbrydol, yn rhan o'r gwasanaethau. Rhoddir sylw i ddigwyddiadau/trychinebau byd-eang mewn gwasanaethau ac mewn gwersi i ddatblygu empathi tuag at eraill. | | |
| **Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**<br>Sicrhau bod athrawes yn derbyn cyfrifoldeb am drefnu gwasanaethau yn dilyn absenoldeb mamolaeth HR<br>Cynllunio bod dosbarthiadau yn cymryd y gwasanaeth torfol bob tymor | | |

| **Rhagorol** | | **Da** | X | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Llofnod: Joanna Thomas (Pennaeth)

Dyddiad: 4.1.17

**Addysg Grefyddol**

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion, asesiadau athrawon a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol; Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009).

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**
**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**
Mae'r ysgol wedi cynllunio'n briodol ar gyfer cyflwyno'r maes llafur
cytûn ar gyfer addysg grefyddol; fodd bynnag, nid yw'n cael ei gynnwys yn ddigon
rheolaidd yng ngwaith y dosbarthiadau- Adroddiad Estyn Mai 2016
Ers yr arolygiad, mae gwaith sylweddol wedi digwydd i sicrhau fod Addysg Grefyddol yn cael ei gynnwys yn ddigon rheolaidd yng ngwaith y dosbarthiadau erbyn hyn.

Y CYFNOD SYLFAEN
Mae gallu'r disgyblion i drafod a galw i gof yn datblygu yn dda ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen ac erbyn brig y Cyfnod Sylfaen mae bron pob un yn gallu trafod a gofyn cwestiynau.
Mae'r pwyslais cynyddol ar sgiliau, medrau meddwl ac asesu ar gyfer dysgu yn ysgogi gweithgareddau amrywiol ac annibynnol. O edrych ar samplau gwaith a llyfrau'r disgyblion gwelir amrywiaeth o gyflwyniadau sy'n adlewyrchu'r sgiliau.
Rhoddir brofiadau amrywiol a heriol i'r disgyblion hynaf tra bod sgiliau darllen a chofnodi y Cyfnod Sylfaen yn dangos dealltwriaeth dda o ofynion y Fframwaith Genedlaethol ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol.
Gall bron pob un siarad am eu teimladau eu gweithrediadau a'u barnau erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen ac y mae tua hanner yn disgrifio a chynnig sylwadau syml ar safbwyntiau pobl eraill.
Datblygir gallu y plant i ddefnyddio geirfa grefyddol syml ar draws y Cyfnod Sylfaen a bydd lleiafrif o blant yn dechrau dod i gydnabod fod ystyr ddyfnach i symbolau crefyddol.
Cynhelir sesiynau Amser Cylch yn rheolaidd yn y dosbarthiadau ac maent yn cyfrannu at ddatblygu agweddau bositif tuag at rannu problemau ac i deimlo empathi tuag at ei gilydd. Maent hefyd yn hyrwyddo sgiliau trafod, gwrando ac ymateb i eraill yn dda iawn.
Ar ddiwedd cyfnodau allweddol mae y llawer yn cyflawni Deilliant 5 a llynedd roedd chwarter o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn cyrraedd Deilliant 6 yn y maes Datblygiad Cymdeithasol a Lles ac Amrywiaeth; mae y rhan fwyaf yn cyflawni Lefel 4 neu 5 ym maes Addysg Grefyddol yn CA2.
Mae cyswllt agos rhwng yr ysgol âg elusennau dyngarol megis Ambiwlans Awyr, Plant mewn Angen, Macmillan ayyb.

CYFNOD ALLWEDDOL 2
Yng ngwaelod Cyfnod Allweddol 2 mae rhan fwyaf yn gallu galw i gof, ymateb a chyfathrebu'n syml rai o'r credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol sylfaenol yr ymchwilir iddyn nhw. Mae ychydig iawn yn dechrau nodi'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol mewn crefyddau.
Ym mrig Cyfnod Allweddol 2 mae llawer o'r disgyblion yn gallu disgrifio rhai credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol a sut mae rhai o'r agweddau hyn ar grefydd yn effeithio ar fywydau credinwyr. Gall tua hanner o'r disgyblion wneud cysylltiadau rhwng credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol gan ddisgrifio'r effaith ar fywydau credinwyr ac yn nodi'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol o fewn ac ar draws y crefyddau.

Yng ngwaelod Cyfnod Allweddol 2 mae y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gallu disgrifio eu teimladau, eu gweithrediadau a'u barnau eu hunain ac yn cynnig sylwadau syml ar safbwyntiau pobl eraill. Mae y rhan fwyaf yn dechrau cydnabod bod ystyr i symbolau crefyddol a byddan nhw'n defnyddio geirfa crefyddol syml yn addas.
Ym mrig Cyfnod Allweddol 2 mae tua hanner o'r disgyblion yn gallu esbonio sut mae eu teimladau, eu gweithrediadau a'u barnau eu hunain yn effeithio ar eu bywydau, ac yn disgrifio sut mae safbwyntiau pobl eraill yn yr un modd yn effeithio ar eu bywydau nhw. Maent yn defnyddio ystod o eirfa grefyddol yn addas ac yn dangos dealltwriaeth sylfaenol o iaith symbolaidd.

Yng ngwaelod Cyfnod Alweddol 2 mae bron pob un disgybl yn gallu siarad a gofyn cwestiynau am eu profiadau eu hunain, y byd o'u cwmpas ac agweddau ar grefydd maent yn gallu trafod y cwestiynau sy'n codi o'u profiadau eu hwy gan gynnig eu barn eu hunain. Oherwydd natur y themau mae lleiafrif iawn o'r disgyblion yn dechrau cydnabod bod cwestiynau crefyddol sylfaenol yn aml yn gymhleth ac mai rhannol ac amhendant yw'r atebion yn aml.
Ym mrig Cyfnod Allweddol 2 mae llawer o'r disgyblion yn gallu trafod eu hymatebion hwy ac eraill i gwestiynau am fywyd, y byd o'u cwmpas a chrefydd. Mae lleiafrif o'r disgyblion yn gallu mynegi a chyfiawnhau eu syniadau a barnau am gwestiynau

sylfaenol. Yn ôl eu hymchwiliadau a'u profiadau eu hunain oherwydd natur y themau mae tua hanner y disgyblion yn cydnabod bod cwestiynau crefyddol sylfaenol yn aml yn gymhleth ac mai rhannol ac amhendant yw'r atebion yn aml

Mae tystiolaeth yn llyfrau'r plant a chanfyddiadau monitro y dysgu a'r addysgu yn dangos fod safonau yn dda erbyn hyn ar draws yr ysgol.

**Safonau medrau llythrennedd, rhifedd, TGCh a meddwl**

Mae llawer yn adeiladu'n llwyddiannus ar ddysgu blaenorol ac yn datrys problemau'n effeithiol trwy ddefnyddio eu medrau meddwl yn effeithiol.

Mae medrau llafar Cymraeg rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n gadarn ar draws yr ysgol. Mae disgyblion yn gwrando'n astud ar gyflwyniadau ac yn ymateb yn hyderus ar lafar, gan ddefnyddio geirfa a chystrawen gynyddol gywir yn y Gymraeg. Gall llawer sgwrsio'n naturiol a rhugl am eu gwaith o oed cynnar. Mae'r lleiafrif nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref yn caffael y Gymraeg yn gyflym ac yn llwyddiannus.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae gan y rhan fwyaf eirfa bynciol dda. Maent yn cyfrannu'n ddeallus i drafodaethau dosbarth gan fynegi barn yn glir am y gwaith thema a'r gwaith technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).

Ar frig y Cyfnod Sylfaen, mae mwyafrif y disgyblion yn darllen gydag ystyr a dealltwriaeth briodol o'r testun. Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau darllen mwyafrif y disgyblion yn datblygu'n briodol yn y ddwy iaith. Maent yn talu sylw dyledus i atalnodi. Erbyn diwedd y cyfnod, mae rhan fwyaf y disgyblion yn trafod yn hyderus brif ddigwyddiadau a chymeriadau yn eu llyfrau cyfredol. Ar draws y cyfnod, mae llawer yn defnyddio uwch fedrau darllen yn dda wrth gywain gwybodaeth mewn llyfrau cyfeirio,

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu'n briodol mewn amrywiaeth o ffurfiau ar draws y meysydd dysgu, gan ddefnyddio strwythur brawddegau clir ac atalnodi sylfaenol. Maent yn defnyddio ansoddeiriau a geirfa addas yn eu gwaith ysgrifenedig, Mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu i safon sy'n briodol i'w hoed a'u gallu yn y ddwy iaith.Fodd bynnag , nid ywdisgyblion yn defnyddio eu medrau ysgrifennu rhydd yn ddigon cyson ar draws y cwricwlwm.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio a chymhwyso eu medrau rhifedd yn briodol, ond mewn ystod gyfyng o sefyllfaoedd. Mae mwyafrif yn cymhwyso'u medrau rhif yn addas i ddatrys problemau syml yn seiliedig ar thema'r dosbarth. Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau mathemategol rhan fwyaf y disgyblion mewn gwersi ac yn eu llyfrau mathemateg yn gadarn. Fodd bynnag, nid yw disgyblion ar draws yr ysgol yn defnyddio eu medrau rhifedd yn ddigon cyson mewn agweddau eraill ar draws y cwricwlwm

Mae gan yr ysgol ystod eang o adnoddau sy'n cefnogi dysgu ac addysgu effeithiol.

Mae ganddi gyflenwad addas o adnoddau TGCh sy'n datblygu medrau digidol y dysgwyr yn dda.

**Materion i gael sylw**

**CYFNOD SYLFAEN/ CYFNOD ALLWEDDOL 2**

- Parhau i ddatblygu geirfa a gallu'r disgyblion i gwestiynu gan gynnig cyfleoedd iddynt fynegi barn erbyn brig y Cyfnod Sylfaen.
- Datblygu dealltwriaeth o effaith crefydd ar fywydau credinwyr erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen.
- Sicrhau bod darnau ysgrifenedig estynedig yn cael eu cyflwyno yn dymhorol yn y maes Addysg Grefyddol
- Sicrhau bod y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn cael eu cynnwys yn y pwnc.
- Sicrhau fod y tasgau a ddarperir ar gyfer y grŵp mwy galluog yn heriol wrth weithio drwy'r cwestiynau sylfaenol, crefyddol a dynol.

| **Rhagorol** | | **Da** | | **Digonol** | ✓ gyda rhai agweddau da | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol, Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009.

**Yr addysgu mewn addysg grefyddol: cynllunio ac amrediad o strategaethau**
**Y CYFNOD SYLFAEN**

- Mae athrawon y Cyfnod Sylfaen yn gyfarwydd â'r fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol. Maent wedi adnabod y sgiliau penodol sy'n ymwneud â phobl, credoau a chwestiynau drwy'r meysydd Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd a datblygiad Personol a Chymdeithasol Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol.
- Mae athrawon y Cyfnod Sylfaen yn gwneud defnydd o 'Pobl, Credodaua chwestiynau Addysg grefyddol i ddysgwyr 3-7 oed yng Nghymru' pan yn cynllunio unedau o waith.
- Mae cynlluniau y Cyfnod Sylfaen ar sail yr ymwybyddiaeth uchod wedi ymgorffori pobl, credoau a chwestiynau o fewn y ddau faes yma ac ar draws y meysydd dysgu eraill.
- Mae'r gweithgareddau wedi eu cynllunio'n ofalus ar draws y cyfnod Sylfaen ac yn dangos dilyniant o un dosbarth i'r llall o ganlyniad i gyd gynllunio a chyd drafod .
- Mae ystod eang o brofiadau yn cael eu cynnig i roi bob cyfle i'r disgyblion wneud cynnydd mewn gwybodaeth a dealltwriaeth a sgiliau trafod a rhesymu yn y maes.
- Mae adnoddau storïol, llyfrau gwybodaeth, llyfrau gwybodaeth, llyfrau mawr, arteffactau, adnoddau TGCh, ymweliadau/ymwelwyr i'r ysgol i gyd yn creu diddordeb ac yn cyfoethogi'r ddarpariaeth yn y maes.
- Ceir disgwyliadau uchel gan yr athrawes a chynhaliaeth gyson.
- Rhoddir bri ar waith dosbarth mewn gwasanaethau ysgol ac arddangosfeydd dosbarth.
- Gwneir defnydd helaeth o wefannau megis HWB a Purple Mash fel adnoddau rhyngweithiol.

Mae'r agweddau Crefyddol o fewn y meysydd yn cael eu darparu yn dda yn y Cyfnod Sylfaen
**CYFNOD ALLWEDDOL 2**

- Neilltuir sesiwn o o leiaf awr yr wythnos ar gyfer Addysg Grefyddol ym mhen uchaf Cyfnod Allweddol 2 ac fe addysgir Addysg grefyddol fel uned 'bloc' o waith unwaith y tymor ar waelod CA2.
- Mae athrwon Ysgol Bro Cynfal ac Ysgol Edmwnd Prys wedi treulio cyfnodau yn cynllunio ar y cyd ac mae y ddwy ysgol yn dilyn yr un themau/testunau er mwyn sicrhau cysondeb.
- Mae cynlluniau hir, canolig a byr yn weithredol mewn Addysg Grefyddol ac fe rennir adnoddau/ymweliadau rhwng y ddwy ysgol erbyn hyn.
- Mae'r cynlluniau yn fanwl ac yn sicrhau dilyniant a datblygiad, mae rhoddi sylw i gwestiynau mawr wedi bod yn gyfrwng i sicrhau dyfnder a datblygu sgiliau ymholi y disgyblion.
- Fel canlyniad i hyfforddiant eang, archebu adnoddau cyfoethog sydd yn dyfnhau ymhellach ddealltwriaeth yr athrawes o'r maes y mae'r ddarpariaeth yn dda ar draws y cyfnod.
- Mae dulliau asesu manwl yn gyfraniad gwerthfawr wrth ddarparu tasgau ar gyfer gwahanol alluoedd.
- Manteisir ar y cyfleoedd i fynd a'r plant allan ar ymweliadau ag addoldai ac i wahodd ymwelwyr i drafod materion Addysg Grefyddol â'r plant.

Mae ansawdd addysgu a'r ddarpariaeth yn Cyfnod Allweddol 2 yn dda.

**Darpariaeth ar gyfer y medrau: llythrennedd, rhifedd, TGCh a meddwl**
Rhoddir sylw i'r Fframwaith Rhifedd a Llythrennedd oddi fewn i'r pwnc Addysg Grefyddol. Anelir i gynnwys o leiaf un darn estynedig yn y maes bob tymor ac un darn rhifedd yn drawsgwricwlaidd (yn y CS a CA2) os yw yn perthyn yn addas.
Defnyddir TGCh yn eang yn y gwersi Addysg Grefyddol i chwilio am wybodaeth ar y we a safweoedd addas , coladu gwybodaeth, cofnodi mewn amrywiol ffurfiau (llythrennedd a rhifedd).Mae sgiliau TGCh y rhan fwyaf o'r disgybion yn datblygu yn dda oherwydd hyn.
Defnyddir strategaethau meddwl yn y gwersi Addysg Grefyddol- grid GED, partneriaid trafod, asesu ar gyfer dysgu, asesu cyfoedion. Mae llawer yn adeiladu'n llwyddiannus ar ddysgu blaenorol ac yn datrys problemau'n effeithiol trwy ddefnyddio eu medrau meddwl yn effeithiol.

**Materion i gael sylw**
**Y CYFNOD SYLFAEN**

- Parhau i gynnig ystod eang o brofiadau diddorol a gwerthfawr o fewn y cynlluniau.
- Athrawon i barhau i gyd-drafod a bod yn ymwybodol o adnoddau newydd sydd ar gael e.e. mewn TGCh
- Parhau i annog y plant i ddatblygu sgiliau meddwl.

**CYFNOD ALLWEDDOL 2**

- Parhau i ddatblygu tasgau heriol ac ymestynnol ar gyfer y disgyblion mwy galluog ymhob dosbarth.
- Rhoi cyfle i'r plant fyfyrio ar y dysgu gan ymateb i sylwadau adeiladol yr athrawon.

| Rhagorol | | Da | | Digonol | ✓ gyda rhai agweddau da | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

| Addoli ar y Cyd |
|---|

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd? | | |
|---|---|---|
| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | **Ydy** | **Nac ydy** |

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94), Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru, Mehefin 2012).

**Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**
**Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**
Darperir Addoli ar y Cyd sydd yn dilyn traddodiad cyffredin y gred Gristnogol yn ddyddiol yn yr ysgol. Cynhelir yr Addoliad ar y cyd ar lefel dosbarth ac ysgol. Rhoddir yr hawl i rieni esgusodi eu plant o'r addoliad a cymerir i ystyriaeth eu cefndir wrth ddarparu ar gyfer yr addoliad.
Fe archwilir agweddau moesol, ysbrydol a chred tra ar yr un pryd yn meithrin ysbryd cymunedol a hyrwyddo ethos a gwerthoedd.
Bydd y plant yn cael cyfle i wneud un neu sawl un o'r canlynol yn ystod yr Addoliad:

- Myfyrio sy'n cynnwys gwrando, gwylio neu fyfyrio ar ysgogiad, cyflwyniad neu sgwrs gan aelod o'r staff neu siaradwr gwadd.
- Gweddïo
- Canu
- Darllen

Rhoddir cyfleoedd i bob disgybl gymryd rhan naill ai'n gyhoeddus neu trwy fyfyrio.
Ar y cyfan mae Addoli ar y Cyd yn gwneud cyfraniad arwyddocaol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Manteisir ar gyfleoedd i ddatblygu agweddau ar ABaCh, Dinasyddiaeth Fyd Eang a'r Cwricwlwm Cymreig fel rhan o'r Addoliad. Mae creu ethos sydd yn wahanol i ethos pob dydd yr ysgol yn digwydd mewn mwyafrif o'r sesiynau.
Cynhelir gwasanaethau Diolchgarwch a Nadolig yn y gymuned. Mae'r ysgol hefyd yn cymryd rhan mewn gwasanaethau amrywiol yn yr eglwys a'r capel lleol. Mae gweithgareddaucymunedol yn cyfoethogi'r profiadau dysgu yn effeithiol.
Cyflwynir gwasanaethau bob pythefnos gan aelodau 'Agor y Llyfr'-mae'r cyflwyniadau yn fywiog ac yn gwella dealltwriaeth holl disgyblion yr ysgol o storiau amrywiol y Beibl gan gyfrannu at ddatblygiad ysbrydol a moesol. Cyflwynir y cyflwyniadau yn y Saesneg sydd yn helpu sgiliau ieithyddol ail –iaith y disgyblion hefyd.

Ar y cyfan mae'r ddarpariaeth yn dda,

**Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

- **Sicrhau fod A ar y C dosbarth yn cydymffurfio â rheoliadau a gofynion**
- **Datblygu ymhellach ethos yr addoliad er mwyn iddo adlewyrchu rhywbeth sydd ar wahân i weithgareddau arferol yr ysgol ar bob achlysur**

| Rhagorol | | Da | ✓ | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Llofnod: I W Jones (Pennaeth)

Dyddiad: 14.10.16

**Enw'r Ysgol:** **Ysgol Cae Top**

**URN:** **6613030**

**Dyddiad yr arolygiad Adran 50 diwethaf:** **06/07/16**

## CYD-DESTUN YR YSGOL

Mae Ysgol Cae Top, sydd dan reolaeth yr Eglwys yng Nghymru, wedi ei lleoli ym Mangor. Mae'n darparu addysg i ddisgyblion rhwng tair ac 11 oed. Mae 234 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol, sy'n cynnwys 28 o oed meithrin. Mae wyth dosbarth un oedran yn yr ysgol.

Derbynia'r ysgol y disgyblion yn rhan-amser yn y Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed ac yn amser llawn yn y mis Medi ar ôl eu pen-blwydd yn bedair oed. Mae tua 10% y disgyblion yn dod o gartrefi lle siaredir Cymraeg. Mae tua 25% o ddisgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol neu gymysg ac yn siarad 16 wahanol iaith. Mae tua 24% yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng addysgu yn y Cyfnod Sylfaen. Yng nghyfnod allweddol 2, addysgir y disgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae 10% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae 24% ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad anghenion addysgol arbennig.

Cafodd yr ysgol ei harolygu diwethaf ym mis Mai 2009. Mae'r pennaeth yn ei swydd ers Medi 2015, a'r dirprwy ers Rhagfyr 2015.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2015-2016 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Cae Top yw £3,837. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Ngwynedd yw £12,116 a'r isafswm yw £2,981. Mae Ysgol Cae Top yn 58ain allan o'r 98 o ysgolion cynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## GWELEDIGAETH A GWERTHOEDD YR YSGOL

*[Gallech ddymuno tynnu ar neu gynnwys datganiad o genhadaeth yr ysgol, datganiad o werthoedd neu amcanion yr ysgol fel y cytunwyd gan gymuned yr ysgol.]*

**Ffynnwn yng Ngoleuni Crist**

Y mae gweledigaeth yr ysgol wedi ei selio ar saith gwerth Cristnogol.
Gobaith, heddwch, dycnwch, doethineb, cyfeillgarwch, diolchgarwch, parch
Pwysleisiwn bwysigrwydd y bartneriaeth driphlyg- disgybl, ysgol, cartref.

Darparwn awyrgylch hapus, ysgogol lle caiff yr holl ddisgyblion, beth bynnag fo'u gallu a'u cefndir, y cyfle i ddatblygu i'w llawn botensial.

Paratown ein disgyblion i fod yn ddinasyddion cyfrifol sy'n cymryd rhan weithredol o fewn eu cymuned ddwyieithog.

***ETHOS YR YSGOL***

| |
|---|
| Mae'r ysgol yn gwasanaethu cymuned eang ag iddi amrywiaeth ieithyddol a chymdeithasol. Gwneir y gorau bob amser i sicrhau bod pob disgybl yn teimlo yn rhan o deulu'r ysgol. Ymfalchïwn yn y ffaith bod bron pob ymwelydd â'r ysgol yn cydnabod yr ymdeimlad o gyfeillgarwch a disgyblaeth sy'n bodoli yn yr ysgol a'r modd y bydd disgyblion newydd yn ymgartrefu yn fodlon a buan.<br><br>Ceir awyrgylch ddiwyd yn y dosbarthiadau a atgyfnerthir gan arddangosfeydd o waith y plant. Bydd hyn yn dangos parch at waith ac ymdrechion y disgyblion ac yn sicrhau amgylchedd symbylus a deniadol.<br><br>Mae athrawon yr ysgol yn ymroddedig i ddatblygiad ein disgyblion. Disgwylir safon uchel o ymddygiad ac ymroddiad ar bob achlysur.<br><br>Mae'r Cwricwlwm a gweithgareddau perthnasol eraill yn gymorth i ddatblygu dealltwriaeth ysbrydol foesol, diwylliannol a chymdeithasol. |

## CRYNODEB

Mewn oddeutu 50 gair crynhowch arbenigrwydd ac effeithiolrwydd eich ysgol fel ysgol eglwysig.

| |
|---|
| Mae Ysgol Cae Top yn gwasanaethu ei chymuned aml ddiwylliannol trwy ddarparu addysg o'r ansawdd uchaf o fewn cyd-destun cred ac ymarfer Cristnogol.<br>Rydym yn gymuned ddysgu hapus ac effeithiol ac yn rhoi sylw arbennig ar werthoedd Cristnogol. Y rheol aur sy'n cael ei ddrilio'n gyson i ddisgyblion a'i fodelu gan yr holl staff yw trin eraill fel yr hoffech chi gael eich trin. |

| **CYNNYDD MEWN MYND I'R AFAEL Â'R FFOCWS AR GYFER DATBLYGU YN YR AROLYGIAD BLAENOROL** Gall ysgolion ddymuno ychwanegu pwyntiau pellach os bydd yn ofynnol | |
|---|---|
| ***Ffocws ar gyfer datblygu 1:***<br>***Datblygu ymhellach mynegiant cymeriad Cristnogol nodedig yr ysgol, yn enwedig yn y dosbarthiadau.*** | |
| Gweithredu a wnaed | Effaith |
| Mae nifer o arddangosfeydd ogwmpas yr ysgol yn arddangos cymeriad Cristnogol unigryw yr ysgol.<br><br>Mae gwerthoedd Cristnogol yn cael eu cydnabod ac eu dathlu ar hyd a lled yr adeilad gyda nifer o waliau gweithredol sy'n atgyfnerthu dealltwriaeth y disgyblion yn gyson. Engrhaifft dda o hyn yw'r goeden gwerthoedd<br><br>Mae ardal fyfyrio yn agos neu yn y dosbarthiadau yn ogystal a waliau lles/bocsys pryderon.<br><br>Yn eu gwersi addysg grefyddol wythnosol mae cyfleoedd amlwg i ddisgyblion werthfawrogi nodweddion Cristnogol drwy gyflwyniadau aml gyfrwng. | Mae dealltwriaeth y disgbylion o werthoedd a chymeriad Cristnogol bellach yn ragorol.<br><br>Drwy feithrin gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o'u gwerthoedd a gwreiddiau Cristnogol, maent yn gallu gwerthfawrogi gwahanol ddiwylliannau a sylweddoli eu cyfrifoldebau fel dinasyddion Byd eang yn arbennig o dda.<br><br>Mae sgiliau cymdeithasol megis dangos caredigrwydd a gofal am eraill, empathi, cydweithio a chyfiawnder wedi datblygu i fod yn dda iawn. |

***Ffocws ar gyfer datblygu 2:***

***Dechrau'r broses o arfarnu'r ysgol fel un eglwysig a chwblhau gwelliannau a awgrymwyd yn nogfennaeth yr ysgol.***

| Gweithredu a wnaed | Effaith |
|---|---|
| Ysgrifennu hunan arfrnu Eglwysig. | Adnabdo beth sydd angen ei weithredu arno. |
| Llunio cyfnodau arbennig ar gyfer Addysg Grefyddol Cristnogol. | Datblygiad sylweddol mewn gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion yn ein gwerthoedd Cristnogol. |
| Sicrhau'r adnoddau ar gyfer datblygu'r Cymeriad Cristnogol o amgylch yr ysgol. | Ardaloedd arbennig ddisgyblion fyfyrio a dathlu eu ffydd. |
| Ail stwythuro'r gwasanaethau. | Cydweithio gyda rhienni o wahanol grefyddau i sicrhau fod pob disgybl yn myncyhu'r gwasanaethau boreol. |
| Mapio caneuon ffydd ar draws y flwyddyn. Rhoi disgwyliadau uchel ar ddisgyblion i wybod rhai ar goedd. | Datblygiad mewn sgiliau llafar Cymraeg disgyblion ac yn eu teimlad o bethyn drwy gyd addoli. |

**CWESTIWN ALLWEDDOL 1**

**Pa mor dda y mae'r ysgol, drwy ei chymeriad Cristnogol arbennig, yn cyfarfod ag anghenion yr holl ddysgwyr?**

**HUNAN-ARFARNU'R YSGOL**: **Rhagorol**

**Tystiolaeth ysgol sy'n seiliedig ar ddeilliannau disgyblion**

Gwnewch sylwadau ar:

- Cyflawniad Dysgwyr
- Gwerthoedd Cristnogol
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol
- Perthnasoedd
- Dealltwriaeth o gymunedau amrywiol a pharch tuag atynt
- Addysg Grefyddol

Gweledigaeth yr Ysgol yw sicrhau cymdeithas ddysgu hapus ac effeithiol ble mae disgwyliadau uchel iawn a darpariaeth arbennig o dda yn sicrhau fod pob disgybl yn cyflawni hyd eithaf eu gallu. Mae sicrhau safonau lles rhagorol yn flaenoriaeth gyson a drwy gydweithio gydag ein cymdeithas ac ysgolion lleol rydym yn gwireddu hyn yn llwyddiannus iawn. Mae'r ddarpariaeth ABaCh yn ogystal ag arferion beunyddiol yr ysgol yn hyrwyddo gwerthoedd megis gonestrwydd, goddefgarwch tegwch a pharch yn rhagorol.

Mae rhan fwyaf disgyblion Ysgol Cae Top yn cyflawni'n arbennig o dda o gysidro eu mannau cychwyn. Mae canlyniadau system dracio (asesiadau athro, profion Cenedlaethol a mewnol) yn dangos fod pob plentyn yn gwneud cynnydd sydd yn o leiaf da, ac yn aml yn rhagorol, o'u gymharu â'u gyrhaeddiad blaenorol ac yn erbyn eu targedau personol. Llwyddir i wneud hyn drwy adnabyddiaeth drylwyr a pherthynas ragorol gyda'r disgyblion.

***Gweler sylwadau am berfformiad y disgyblion yn adroddiad Hunan Arfarnu'r Ysgol yn ogystal***

***ag adroddiad diweddar ESTYN.***

O ganlyniad i’n hethos gofalgar a chefnogol, mae presenoldeb yn dda iawn ac wedi ein gosod yn y 50% uwch o ran ysgolion tebyg dros y blynyddoedd diwethaf. Llynedd roedd y presenoldeb yn 95.7% ac eleni rydym yn agos iawn at ein targed o 96%.

Mae bron pob disgybl yn cyrraedd yr Ysgol yn brydlon. Y mae’r rhieni yn ymrwymedig i gadw'r lefel presenoldeb yma. Mae sustemau grymus yn eu lle i hyrwyddo presenoldeb da ac adnabod cartrefi ble mae angen cefnogaeth.

Ni fu unrhyw achos o ymateb hiliol nac o fwlio. Mae polisi cynnal ymddygiad a holl ethos yr Ysgol yn hyrwyddo brawdgarwch a chyd-fyw. Hyrwyddir parch at wahaniaethau a chydraddoldeb hiliol trwy ein gwaith ABCh a’n gwasanaethau. Drwy waith arbennig o dda i sicrhau gwerthfawrogiad o ein diwylliant Cymreig a Christionogol ni ein hunain, rydym wedi rhoi sylfaen gref i allu gwerthfawrogi diwylliannau eraill. Rydym yn dathlu cefndiroedd amrywiol ein disgyblion yn aml drwy waith themâu/ABaCh neu mewn gwasanaethau. Effaith hyn yw bod gan ein disgyblion ddealltwriaeth ddwys o grefyddau a thraddodiadau’r byd a’r ffordd y mae diwylliannau eraill yn cyfoethogi eu bywydau.

Mae’r ysgol wedi’i chyfeillio gyda’r Gadeirlan ym Mangor ac yn derbyn ymweliadau wythnosol gan Gannon David Fisher yn ogystal ag ymweliadau pob pythefnos gan ‘Agor y llyfr’. Effaith hyn yw datblygu gwybodaeth am storïau o’r Beibl a'u dealltwriaeth am y gwersi sydd tu ôl iddynt. Rydym wedi datblygu gallu’r disgyblion i ddefnyddio eu gwybodaeth o storïau’r Beibl a'u perthnasu i’w dealltwriaeth o ein gwerthoedd Cristnogol yn llwyddiannus iawn. Effaith hyn yw bod y disgyblion yn gallu cysylltu'r gwerthoedd, o’r cyd-destun yn y Beibl, gyda'u bywydau nhw a'u hefelychu’n arbennig o dda. Mae sawl coeden gwerthoedd o amgylch yr ysgol i ddathlu pan fo disgyblion yn ymgorffori’r gwerthoedd hyn.

Drwy weithio gyda’r Parchedig Townsend, casglodd y disgyblion arian tuag at elusen ‘feed a cow’ yn Kenya. Atgyfnerthwyd y syniad o gefnogi elusennau drwy’r gwaith mewn gwersi dinasyddiaeth ble codwyd fwy o arian gyda Mr Roberts, cyn pennaeth Ysgol Corn Hir, i blant yn Kenya.
Mae’r disgyblion, sy’n cael eu harwain gan y cyngor ysgol, cyngor eco neu’r cyngor Cymraeg yn codi arian i nifer fawr o elusennau dros y flwyddyn megis Plant Mewn Angen, Cymorth Cristnogol, Diwrnod Trwyn Coch, Marie Curie ayyb.
Effaith y profiadau yma yw bod gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o’u dyletswyddau fel Cristnogion da a dinasyddion Fyd Eang o helpu eraill yn rhagorol.

Rhoddir pwyslais pendant ar Gristnogaeth yn ein gwersi Addysg Grefyddol. Eleni mae’r Ysgol wedi defnyddio’r cynlluniau'r Eglwys yng Nghymru i sicrhau bod y disgyblion yn meddu ar wybodaeth dda iawn am y Beibl ac o neges Efengyl Iesu Grist. Cred yr ysgol yw bod angen sylfaen gadarn o ddeallusrwydd am ein hetifeddiaeth ac ein diwylliant Cymreig a Christionogol ein hunain cyn gallwn wir werthfawrogi diwylliannau a chefndiroedd disgyblion eraill. Mae’r Ysgol hefyd yn gwneud defnydd rhagorol o wersi Addysg Grefyddol i ddatblygu sgiliau llythrennedd a dealltwriaeth y disgyblion o’u diwylliant Cymreig. Mae’r caneuon yn y gwasanaeth boreol yn un o’n harfau mwyaf effeithiol i ddatblygu llafaredd Cymraeg disgyblion, sydd bron pob un yn dod o gartrefi di-gymraeg. Mae effaith hyn i weld yn glir yng nghywirdeb eu hynganiad a’r datblygiad sylweddol yn eu medrau llafar Cymraeg. Mae hyn wedi ei gydnabod gan y Sir drwy’r siarter Iaith, Estyn, rhieni a fwyaf oll gan y disgyblion.

**Cryfderau Allweddol**

- Cyflawniad Dysgwyr
- Gwerthoedd Cristnogol
- Dealltwriaeth o gymunedau amrywiol a pharch tuag atynt

| |
|---|
| **Pwyntiau Datblygu**<br>• Perthnasoedd - Ers i'r Gwir Barchedig Susan Jones adael mae Cannon David Fisher wedi bod yn cynnal gwasanaethau wythnosol. Mae ef bellach ar gyfnod Saboth ac felly rydym yn mawr obeithio y bydd rhywun arall yn ein cefnogi'n fuan. |

| |
|---|
| **CWESTIWN ALLWEDDOL 2 Beth yw effaith cydaddoli ar gymuned yr ysgol?** |
| **HUNAN-ARFARNU'R YSGOL**: Da |
| **Tystiolaeth ysgol sy'n seiliedig ar ddeilliannau disgyblion:**<br>Gwnewch sylwadau ar:<br>Effaith cydaddoli<br>Nodweddion canolog cydaddoli<br>Natur ganolog addoli a myfyrio<br>Sail ddiwinyddol cydaddoli<br>Arweinyddiaeth a rheolaeth cydaddoli<br><br>**Cymerir yr awgrymiadau hyn o Raglen Arfarnu Gwella lle deuir o hyd i fanylion pellach**<br>**Rhesymau dros y radd (effaith a darpariaeth)**<br><br>Sicrheir fod y cyfnod o gyd-addoliad yn cwmpasu amrediad eang o themâu Cristnogol gyda phwyslais cryf ar werthoedd Cristnogol yr Ysgol a dathliadau Cristnogol. Y mae hyn yn sicrhau fod gan y disgyblion ddealltwriaeth dda o natur addoli, y ffydd, y traddodiadau ac arferion Cristnogol.<br><br>Mae cynllun cyd-addoli, Ysgol Cae Top, wedi ei lunio i sicrhau parhad, amrywiaeth a ffocws clir ar gredoau a gwyliau Cristnogol. Cenir amrywiaeth o emynau yn ein gwasanaethau. Drwy ein gwasanaethau, ein cynllun gwaith Addysg Grefyddol a'n cynllun AbaCh mae'r disgyblion yn cyfrannu'n effeithiol drwy drefnu cyfraniadau ymlaen llaw, rannu teimladau ar y pryd a thrwy fyfyrio ar yr hyn a drafodwyd. Can gyfle hefyd i fyfyrio ar eu bywydau eu hunain a bywydau pobl eraill, ystyried cwestiynau sylfaenol bywyd a myfyrio ar eu credoau neu eu gwerthoedd eu hunain. Ceir cyfle yn y gwasanaethau hyn i fyfyrio, holi a thrafod materion sy'n codi yn yr ysgol neu y tu allan. Mae'r cyfnodau yma yn rhoi cyfle i'r plant drafod eu teimladau, gwrando ar eraill ac i barchu amrywiaeth barn.<br><br>Yn wythnosol bydd grwpiau amrywiol o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn paratoi gwasanaeth. Ceir amrywiaeth o eitemau yn y gwasanaethau yma o ddrama i gwis. Y mae hyn yn dyfnhau dealltwriaeth disgyblion CA2 o themâu a straeon, yn eu hannog i feddwl am ddulliau effeithiol o gyflwyno'r stori/ thema ac yn cynnig profiadau cyd-addoliad amrywiol i ddisgyblion y CS.<br><br>Fel Ysgol Eglwys mae cyswllt cryf rhwng yr ysgol a'r disgyblion a'r Gadeirlan. Bydd y Cannon David yn cynnal gwasanaethau yn gyson a bydd y plant hefyd yn cymryd rhan mewn gwasanaethau yn y Gadeirlan - gwasanaeth Diolchgarwch a gwasanaeth Nadolig. Y mae criw o wirfoddolwyr yr Eglwys yn cynnal gwasanaethau bob pythefnos - cynllun "Agor y Llyfr." Adroddir stori o'r Beibl ar ffurf drama sy'n dod a'r storïau yn fyw. Trafodir cynnwys/ ystyr y storïau ar derfyn y gwasanaeth. Y mae dealltwriaeth y disgyblion o'r straeon ac o'u neges wedi cynyddu yn fawr yn sgil hyn.<br><br>Mae disgyblion yr Ysgol yn cyd-adrodd Gweddi'r Arglwydd yn y gwasanaeth boreol, yn cyd-adrodd gweddi cyn cinio a gweddi/ gras ar ddiwedd y dydd. Cynhelir gwasanaethau a gwersi i sicrhau fod disgyblion yn deall natur a phwrpas gweddi. Yn ystod y gwasanaethau caiff y disgyblion gyfle i |

fyfyrio a chyfle i ddweud gweddi bersonol. Y mae'r disgyblion yn cael cyfle i fyfyrio ysgrifennu gweddïau personol ar gyfer achlysuron penodol e.e. diolchgarwch, a digwyddiadau lleol a rhyngwladol e.e. pobl di gartref ym Mangor gyda'r banc bwyd neu'r rhyfel yn Syria. Drwy gyfrwng hyn oll sicrheir fod y cyfnod y gyd-addoliad yn gyfnod ysbrydol nodedig.

**Cryfderau Allweddol**

- Effaith cydaddoli
- Arweinyddiaeth a rheolaeth cydaddoli

**Pwyntiau datblygu**

**CWESTIWN ALLWEDDOL 4**

**Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol fel ysgol eglwysig?**

**HUNAN-ARFARNU'R YSGOL**: Da

**Tystiolaeth ysgol sy'n seiliedig ar ddeilliannau disgyblion:**

Gwnewch sylwadau ar:

- Gweledigaeth Gristnogol
- Arfarnu a chynllunio strategol
- Arweinyddiaeth bellach ysgolion eglwysig
- Partneriaeth gyda chydranddalwyr allweddol

**Cymerir yr awgrymiadau hyn o Raglen Hunan-Arfarnu Gwella lle deuir o hyd i fanylion pellach**

**Rhesymau dros y radd (effaith a darpariaeth)**

Y mae gweledigaeth Gristnogol glir gan yr Ysgol. Lluniwyd a thrafodwyd y weledigaeth ar y cyd gyda'r holl randdeiliaid. Cynhelir gwasanaethau a gwersi penodol ar y gwerthoedd Cristnogol sydd yn sail i'r weledigaeth. Rhydd hyn gyfleoedd i'r disgyblion i drafod, i ymestyn dealltwriaeth ac i fynegi'r gwerthoedd mewn amrywiol ddulliau.

Wrth hunan arfarnu cyfeiriad Cristnogol yr Ysgol rydym o'r farn ein bod wedi ymateb yn llawn i'r arolwg diwethaf o ran datblygu cymeriad Cristnogol yr Ysgol. Y mae'r cynllun yn cynnwys camau gweithredu pendant ac yn gosod amserlen bendant i'w ddilyn. Y mae'r llywodraethwyr yn monitro'r cynnydd yn eu cyfarfodydd.

Y mae staff yr Ysgol a'r llywodraethwyr yn ymateb yn effeithiol i anghenion addysgol pob plentyn gan gynnwys y rhai sydd ar gofrestr ADY. Drwy wneud hyn sicrhawn ein bod yn cydnabod cymeriad Cristnogol yr Ysgol drwy greu ethos sydd yn cefnogi dysgu effeithiol.

Y mae cyswllt clos rhwng yr Ysgol a'r Gadeirlan. Drwy gynnal gwasanaethau Diolchgarwch, Nadolig, Sul y Cofio, Dydd Gŵyl Dewi a thrwy ymweliadau gan yr Esgob Andy a gan Ganon David rydym yn meithrin ymdeimlad o berthyn ymysg y disgyblion. Mae Llywodraethwr Eglwysig arbennig o dda gan yr ysgol sy'n sicrhau ein bod yn ymdrin â phob agwedd o'r ysgol gyda meddylfryd Cristionogion da.

Yn flynyddol bydd disgyblion blwyddyn 6 yn treulio'r diwrnod yn y Gadeirlan ym Mangor. Diwrnod i ddathlu diwedd eu cyfnod yn yr ysgol gynradd ac i edrych ymlaen at eu cam nesaf yw'r diwrnod. Y mae nifer helaeth o staff wedi cael cyfle i fynd gyda'r disgyblion i'r digwyddiad ac mae hyn wedi bod yn hyfforddiant ac yn ddatblygiad proffesiynol iddynt hwythau.

Mae Addysg Grefyddol Gristnogol a Dinasyddiaeth Byd Eang yn cael ei ddysgu yn wythnosol gan athrawes arbenigol yn ystod cyfnodau CPA. Mae hyn wedi arwain at ddatblygiad gwych mewn gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau'r disgyblion i fod yn Cristnogion da.

**Cryfderau Allweddol**
Mae'r Pennaeth a'r staff yn modelu ac yn hyrwyddo ymddygiad a gwerthoedd sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at greu ethos ysgol lle mae disgyblion a staff yn teimlo'u bod yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi.

**Pwyntiau datblygu**
Cynghorau disgyblion amrywiol i gydweithio a chynghorau disygblion Ysgolion Eglwysig eraill.

**Enw'r Ysgol:** Ysgol Llanbedr

| **Addysg Grefyddol** |
|---|

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion, asesiadau athrawon a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol; Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009).

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**

- Wrth graffu ar lyfrau, mae llawer o ddisgyblion CS yn gallu adalw straeon megis, 'Stori Moses yn yr hesg', 'Dameg yr Heuwr', stori Mari Jones yn cerdded i'r Bala i brynu Beibl a stori Rama Sita. Maent yn deall pam mae'r Beibl yn bwysig i gredinwyr a phwysigrwydd dathliadau Divali i Hindwaid.
- Mae disgyblion haen uwch CA2 yn gallu ysgrifennu'n estynedig wrth baratoi disgrifiad cynhwysfawr o ddigwyddiadau wythnos y Pasg ac yn gallu chymharu'r dathliadau yr eglwys wrth i Gristnogion gofio stori'r Croeshoeliad yn effeithiol.
- Er bod disgyblion CA2 wedi ymchwilio i leoliadau pererindod, prin yw eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o pam mae credinwyr yn dewis mynd ar bererindod.

**Safonau medrau llythrennedd, rhifedd, TGCh a meddwl**

- **Llythrennedd:** mae safonau cynllunio ac ysgrifennu stori gyfarwydd y rhan fwyaf o blant yn dda, ond prin yw'r dystiolaeth o'u sgiliau dehongli, esbonio a mynegi barn.
- **Rhifedd:** ni welwyd enghreifftiau o rifedd yn y pwnc.
- **TGCh:** mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gallu defnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel ac yn effeithiol er mwyn cywain gwybodaeth syml am arferion crefyddol, e.e. dathliadau Nadolig ar draws y byd, gwybodaeth am William Morgan a phatrymau Rangoli.
- **Meddwl:** mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn gallu defnyddio tabl i gymharu, blaenoriaethu trwy ddefnyddio rhestr diamwnt, a disgrifio'r newidiadau bywyd Mari Jones mewn arddu lllinell ffawd.

**Materion i gael sylw**

Mae angen:

- Sicrhau bod disgyblion CS yn yn gallu ymateb yn estynedig er mwyn esbonio pwysigrwydd stori neu ddathliad i gredinwyr.
- Parhau i arddangos sgiliau llythrennedd da wrth ddarllen ac ysgrifennu'n estynedig a defnyddio gweithgareddau llafar cyfoethog er mwyn hybu disgyblion i fynegi ymatebion personol a defnyddio ystod o iaith grefyddol addas.

| **Rhagorol** | | **Da** | | **Digonol** | ✓ | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol, Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009.

**Yr addysgu mewn addysg grefyddol: cynllunio ac amrediad o strategaethau**

- Dengys y cynlluniau gwaith bod yr ysgol yn paratoi gweithgareddau addysg grefyddol cymwys sy'n bodloni gofynion y Maes Llafur Cytun lleol yn ddigonol. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oes trosolwg tymor hir sy'n amlinellu sut y mae'r ysgol yn bwriadu diwallu gofynion y maes llafur cytûn.
- Wrth graffu ar lyfrau disgyblion CS a CA2, gwelir bod cyfleoedd rheolaidd i adalw straeon crefyddol, er enghraifft, *'Dameg yr Heuwr', Y 10 Pla, Taith Moses, Stori'r Pasg'*. Fodd bynnag nid ydynt yn cael cyfleoedd i ymhelaethu ar bwysigrwydd y straeon yma i gredinwyr.
- Mae'r ysgol yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion yn dda trwy drefnu ymweliadau, *e.e. i Fyd Mari Jones, addoldy lleol*. Yn ystod 2015-16 mae cwmni 'Mewn Cymeriad' wedi cyflwyno hanes Mari Jones i ddisgyblion CS a CA2.

**Darpariaeth ar gyfer y medrau: llythrennedd, rhifedd, TGCh a meddwl**

- **Llythrennedd:** er bod yr ysgol yn datblygu medrau ysgrifennu yn dda, mae angen cynllunio mwy bwriadus ar gyfer datblygu medrau llafaredd a darllen mewn addysg grefyddol.
- **Rhifedd a TGCh:** mae angen adnabod cyfleoedd addas i ddatblygu medrau rhifedd a TGCh mewn addysg grefyddol.

- **Meddwl:** sicrhau bod y gweithgareddau medrau meddwl sy'n seiliedig ar drefnyddion graffigol yn arwain at ymatebion mwy estynedig ar lafar ac yn ysgrifenedig.

**Materion i gael sylw**
**Mae angen:**

- Sicrhau bod y cynlluniau tymor byr yn galluogi'r disgyblion i ymdrin â'r cwestiynau sylfaenol, i esbonio effaith crefydd ar gredinwyr ac i fynegi ymatebion personol. Mae angen datblygu cyfleoedd i feithrin medrau TGCh a rhifedd pan yn berthnasol.
- Addasu system tracio yr ysgol er mwyn cofnodi cyrhaeddiad disgyblion a sicrhau bod yr athrawon yn cynllunio'r camau nesaf yn well.

| **Rhagorol** | | **Da** | | **Digonol** | ✓ | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Addoli ar y Cyd

### Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?

| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | **Ydy** ✓ | **Nac ydy** |
|---|---|---|

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94), Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru, Mehefin 2012).

**Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

- Mae'r ysgol yn cadw cofnod cryno o themâu y cyfnodau addoli ar y cyd ac mae pob aelod o staff addysgu yn cyfrannu at y cynllun ysgol gyfan. Cynhelir gwasanaeth boreol ysgol gyfan ddwy waith yr wythnos, a bydd cyfnod o fyfyrio ym mhob dosbarth ar y tri diwrnod arall.
- Mae ansawdd y gwasanaethau ysgol gyfan yn dda ac yn rhoi cyd-bwysedd crefyddol/ysbrydol, gan roi cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion i gymryd rhan ac i fyfyrio yn unigol ac yn dorfol. Trafodir sut i weithredu parch a thegwch tuag at eraill.
- Yr ydym yn croesawu tîm o'r eglwys yma bob yn ail wythnos gyda 'Agor y Llyfr' ac mae hyn yn sicrhau cyfle cyfoethog i'r disgyblion glywed storïau o'r Beibl a chael cyfle ar adegau i gymryd rhan drwy actio / llefaru rhannau o'r stori.
- Bydd cyfleoedd i godi arian at elusennau megis Plant mewn Angen yn flynyddol, Trwynau Coch bob dwy flynedd, ac un elusen o'u dewis bob Nadolig ( Siwmperi Nadolig Save The Children eleni ). Mae hyn yn gyfle clodwiw i ddatblygu empathi'r disgyblion wrth iddynt feddwl am eraill llai ffodus.

**Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

- Sicrhau cysondeb yn ansawdd y sesiynau addoli ar y cyd dyddiol.

| **Rhagorol** | | **Da** | ✓ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Llofnod: Sian Wyn Williams (Pennaeth strategol)

Dyddiad: 09 Ionawr 2017

**Enw'r Ysgol:** **Maenofferen** **Cyfeiriad: Blaenau Ffestiniog, Gwynedd Ll41 3DL**

**Addysg Grefyddol**

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion, asesiadau athrawon a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol; Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009).

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**

- Defnyddiwyd y Ffeil Tracio Cynnydd er mwyn gweld lefelau cyrhaeddiad y disgyblion sydd ym ml 6 eleni. Edrychwyd ar eu lefelau ar ddiwedd bl 3, 4 a 5.

| | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|
| Diwedd Bl 3 | 39% | 61% | 0 | 0 |
| Diwedd Bl 4 | 5% | 86.5% | 9% | 0 |
| Diwedd Bl 5 | 0 | 69.5% | 30.5% | 0 |

- Yn ychwanegol, mae'r cydlynydd wedi craffu ar waith disgyblion bl 6 er mwyn gweld sawl plentyn oedd yn gallu cynhyrchu gwaith sydd yn nodweddiadol o lefel 5. Edrychwyd ar y dasg Heddwch. Mae 4 disgybl (17%) o ddisgyblion bl 6 wedi llwyddo i gymharu ymarferion y gwahanol gredoau, gan greu cysylltiadau rhyngddynt a mynegi barn (gwaith sydd yn nodweddiadol o Lefel 5).

**Materion i gael sylw**

- Parhau i baratoi gwersi a gweithgareddau sydd yn caniatau disgyblion i greu gwaith sydd yn nodweddiadol o lefel 5.

| Rhagorol | | Da | X | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol, Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009.

**Yr addysgu mewn addysg grefyddol: cynllunio ac amrediad o strategaethau**

- Gwelir fod y disgyblion yn cael profiadau dysgu da ar draws yr ysgol, gyda sylw yn cael ei roi i wahaniaethu ac i strategaethau Asesu ar gyfer Dysgu megis 2* a Dymuniad.
- Gwneir defnydd da o ymweliadau ac ymwelwyr i gyfoethogi'r dysgu, ee. trip dathlu'r Pasg i Goleg y Bala; ymweld â chapel ac eglwys leol; gwahodd y Ficer Brownridge i'r ysgol am sgwrs; derbyn ymweliad gan aelod o elusen y Cymorth Cristnogol, yn ogystal â threfnu bedydd ffug a phriodas ffug yn yr eglwys leol.
- Mae'r athrawon yn creu arddangosfeydd deniadol a llyfrau dosbarth yn seiliedig ar y gwaith Addysg Grefyddol.
- Mae LJ (athrawes CPA) yn nodi pryder nad ydyw cyrsiau mor hawdd i'w cael rwan.
- Rhannwyd holiaduron staff a disgyblion cyn cynnal yr arfarniad. Mae'r holiaduron plant (bl 6) yn dangos fod

y disgyblion yn mwynhau'r gwersi Addysg Grefyddol. Defnyddir termau crefyddol i ddisgrifio'r gwaith maent wedi ei wneud (gweler yr holiadur) ac mae'r disgyblion hefyd yn gallu disgrifio sut mae eu gweithgareddau yn gofyn am sgiliau traws-gwricwlaidd megis ysgrifennu, ymchwilio a defnyddio mathemateg.

**Darpariaeth ar gyfer y medrau: llythrennedd, rhifedd, TGCh a meddwl**

- Mae'r Medrau Allweddol a'r FfLlRh yn cael eu hymgorffori ym mhob un o'r gwersi – gwelwyd enghreifftiau o waith TGCH; gwaith rhif; gwaith ysgrifennu a thrafod; yn ogystal â gwaith meddwl a didoli.

**Materion i gael sylw**

- Buddsoddi mewn Beiblau amrywiol ar gyfer y CS a CA2.
- Parhau i gyfoethogi a diweddaru'r portffolios.
- Parhau i drefnu ystod o ymweliadau ac ymwelwyr er mwyn cynnal diddordeb y disgyblion

| Rhagorol | | Da | X | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Addoli ar y Cyd

### Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?

| Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol? | Ydy | Nac ydy |
|---|---|---|

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94), Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru, Mehefin 2012).

**Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

- Mae dysgwyr CA2 yn addoli ar y cyd yn wythnosol. Mae'r Pennaeth wedi llunio amserlen wythnosol sydd yn dynodi pa themau/ agweddau sydd yn cael eu trafod. Yn ychwanegol, mae pob dosbarth yn gyfrifol am baratoi a chynnal un gwasanaeth bob tymor.
- Mae dysgwyr Bl1 a Bl2 yn addoli ar y cyd yn wythnosol. Arweinydd y Cyfnod Sylfaen sydd yn cynnal y gwasanaethau. Caiff dysgwyr gyfleoedd da i drafod yr hyn sydd yn bwysig iddynt hwy, gan ddod â gwrthrychau neu luniau fel sbardun i'r sgwrs.
- Mae'r Parchedig Dewi Morris yn cael ei wahodd i'r ysgol ar adeg Diolchgarwch. Mae'r dysgwyr yn cael eu hannog i gyflwyno bwyd ac mae aelodau o'r Cyngor Ysgol yn dosbarthu'r hamperi hyn o fewn y gymuned leol.
- Cynhelir Gwasanaeth Wobrwyo yn fisol er mwyn gwobrwyo dysgwyr o bob dosbarth ar draws yr ysgol am eu hymdrechion a'u cyflawniadau.
- Mae aelodau o'r gymuned leol yn cael eu gwahodd i'r gwasanaethau er mwyn ysbrydoli'r dysgwyr. Yn ddiweddar daeth Jess Kavanagh i roi cyflwyniad gwych ar ei llwyddiannau hi ym myd rygbi merched Cymru. Mae aelod o Arriva Trains hefyd wedi cyflwyno clip fideo gafodd ei gynhyrchu gan ddysgwyr Bl5 er mwyn hyrwyddo balchder tuag at y rheilffordd lleol.
- Mae pob athro/athrawes o fewn y dosbarth yn cynnal gwasanaethau boreol o fewn eu dosbarthiadau.
- Mae'r ysgol yn cynnal Gwasanaeth Nadolig yn flynyddol yn y capel lleol. Mae dysgwyr CA2 a CS yn cymryd tro i gyflwyno Stori'r Geni.

**Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

- Parhau i wahodd ystod o ymwelwyr i'r sesiynau addoli ar y cyd er mwyn ysbrydoli ac ysgogi'r dysgwyr.
- Sicrhau mwy o gyfleoedd i ddysgwyr y Meithrin, Derbyn, Bl1 a Bl2 addoli ar y cyd fel adran CS.

| Rhagorol | | Da | X | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Llofnod: *Gareth Roberts* (Pennaeth)

Dyddiad: 6/1/17

**Enw'r Ysgol: Penybryn Tywyn Cyfeiriad: Ffordd Cadfan, Tywyn, Gwynedd. Ll36 9EF**

**Addysg Grefyddol**

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion, asesiadau athrawon a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol; Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011),

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**

- Wrth graffu ar lyfrau disgyblion gwelir fod gan y rhan fwyaf o ddisgyblion wybodaeth dda am lyfrau sanctaidd, mannau addoli, fel Eglwys Sant Cadfan a'i dylanwad ar dref Tywyn, seremonïau crefyddol megis bedyddio a gwyliau sy'n bwysig i Gristnogion/Iddewon/Mwslimiaid. **Gwelwyd fod gwaith yn cael ei wneud ar bererindod ym** mlwyddyn 5a6. Yn y cyfnod sylfaen gwelir gwaith ar pobl a helpu eraill a gwyliau megis Diolchgarwch a Nadolig; y Pasg iddewig, a Mari Jones a gwerth y Beibl iddi hi. Gwelir hefyd engreifftiau o waith yn llyfrau plant sydd yn cyfeirio at ddatblygu syniad o berthyn a bod yn rhan o gymuned wahanol. Gwelwyd hefyd hanesion pobl sydd yn ysbrydoli megis Rosa Parks, a llyfrau sanctaidd megis y Beibl Qu'ran a Gweddir Arglwydd. Mae bod yn stiward a gofalu am fyd Duw yn rhan allweddol o ddealltwriaeth y plant o bwysigrwydd crefydd yn hyn.
- Mae dadansoddiad o asesiadau athrawon yn dangos bod safonau wedi gwella ers 2010 yn dilyn ail strwythuro cynllun gwaith yr ysgol er mwyn miniogi y safonau, ar hyn sydd yn cael ei ddysgu yn dilyn llawer mwy o ddyfnder. Mae tua hanner disgyblion Blwyddyn 5a6 wedi gwneud cynnydd da iawn yn eu dulliau o fynegi a rhesymu esboniadau crefyddol. Mae angen cefnogi lleiafrif ym Mlwyddyn 3 i gyflawni nodweddion lefel2-3
- Mae arsylwadau gwersi yn dangos bod llawer o ddisgyblion Blwyddyn 1a2 yn gallu ymdrin ac ymateb i brofiadau byw ag adnabod beth sydd yn bwysig iddyn nhw yn enwedig gan ddefnyddio ysgol Dina yn wythnosol. Gallai rhan fwyaf o'r plant wylio rhaglen neu wrando ar siaradwr gwadd gan Gymorth cristnogol i archwilio a mynegi barn sut mae pobl eraill yn ein helpu a sut mae gwerthoedd crefyddol yn dysgu ni sut i ofalu am eraill a'r byd.
- Mae rhediad a chysondeb gyda profiadau perthnasol yn amlwg yn y gwersi trwy'r ysgol. Adeiladir ar hyn yn CA2 er mwyn gweld y cysylltiad rhwng y credoau ac arferion crefyddol.
- Dengys gweithgaredd traws gwricwlaidd o graffu ar lyfrau fod Llawer o'r disgyblion yn arddangos sgiliau llythrennedd cyson dda wrth ysgrifennu'n estynedig.Gwelir fod cadw at rheolau crefyddol a'i effaith ar y Cristion hefyd ar gyfer gwylltio cyfiawn yn cael sylw hynod effeithiol. Gall y mwyafrif o'r disgyblion ddarllen amrediad o ffynonellau crefyddol megis adrodd ar waith William Booth a chymdeithas y cymod, hefyd ffynonellau anghrefyddol megis hanes Rosa Parks er mwyn datblygu deall dwriaeth o ddelio gyda hiliaeth. Fodd bynnag nid oes tystiolaeth ddigonol o ddisgyblion yn datblygu eu sgiliau rhifedd/TGCh mewn addysg grefyddol.

**Mae angen:**

- Gwella gallu lleiafrif o ddisgyblion gan ddefnyddio Tgch i ddehongli addysg grefyddol?
- Datblygu ysgrifennu plant bl 3a4 a 5a6 trwy allu defnyddio ystod o ddehongliadau i ysgrifennu esboniad cynhwysfawr o effaith crefydd ar gymunedau leol.

**Safonau medrau llythrennedd, rhifedd, TGCh a meddwl**

- Wrth graffu ar lyfrau disgyblion gwelir bod gan y rhan fwyaf o ddisgyblion wybodaeth dda am lyfrau sanctaidd, mannau addoli, seremonïau crefyddol a gwyliau sy'n bwysig i Gristnogion/Iddewon/Mwslimiaid.
- Parhau i sicrhau fod plant yn cyrraedd lefelau uwch wrth ysgrifennu yn estynedig am grefydd ai ddylanwad ar ein byd.

**Materion i gael sylw**

- Sicrhau nad hanes yw addysg grefyddol.er enghraifft o sut a pham fod Cristnogion eisiau edrych ar ôl y digartref a'i gysylltu gyda'r Beibl.
- Sicrhau cydbwysedd rhwng y Saesneg a'r Gymraeg.

| **Rhagorol** | | **Da** | x | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol, Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009.

**Yr addysgu mewn addysg grefyddol: cynllunio ac amrediad o strategaethau**

- Gwelwyd fod yr amser a roddir i'r pwnc yn cyrraedd gofynion y cwricwlwm. Cynllunir gwersi yn wythnosol a thymhorol yn drefnus ac effeithiol sydd yn cynnig profiadau byw ac yn sicrhau rhediad a chysondeb o un flwyddyn i'r llall. Meddai y cydlynydd pwnc wybodaeth eang am y maes sydd yn cael ei drosglwyddo yn effeithiol i'r athrawon a phlant yr ysgol. Gwelwyd fod arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon yn cael ei ddatblygu trwy fonitro cyson a hefyd dderbyn gwybodaeth rheolaidd a chyrsiau defnyddiol yn achlysurol. Mae 'r rhaglen astudio wedi ei addasu i berthnasu i fywyd pob dydd y disgyblion gan ddefnyddio amrediad yr adnoddau dysgu ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol, arteffactau ac adnoddau oddiar y we neu dafleni gwaith.
- Mae arfarniad trwyadl o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a chydlynydd pwnc ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol. Mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel pob tro yn unol a gweddill y cwricwlwm.
- Gwelwyd fod y ddarpariaeth 'Pobl, megis gwaith ar fasnach deg a Chymorth cristnogol , Richard Taylor, yn llwyddiannus ac yn ddefnyddiol i'r plant. Gwelwyd fod disgyblion yn ddeall ymhellach credoau megis Iddewiaeth a Islamaidd yn dda. Gwelwyd fod cysondeb goleuni mewn 3 crefydd yn bwysig wrth addoli.
- Defnyddir cwestiynau effeithiol er mwyn ehangu ar y gwaith medrus mae'r plant yn gallu gyflawni. Gwelir fod hyn yn wir am ddysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.

**Darpariaeth ar gyfer y medrau: llythrennedd, rhifedd, TGCh a meddwl**

- Gwelwyd fod rhan fwyaf o'r gwaith yn defnyddio sgiliau llythrennedd a rhifedd a dengys fod safonnau wedi gwella ers 2014
- Cafwyd fod mynegi barn yn digwydd yn rheolaidd a bod cynnig esboniadau am hyn yn rhan o waith mwy heriol blynyddoedd 5a6.
- Gwelwyd ychydig o waith data megis arferion plant yn mynychu capel neu eglwys.
- Gosodwyd meini prawf llwyddiant yn addas ar gyfer tua hanner y gwersi.

**Materion i gael sylw**

- Barnwyd fod angen mwy o waith ar gynnwys sgiliau Tgch yn y gwaith dydd i dydd a hefyd gallu dehongli mwy o holiaduron sydd yn mynegi barn y plant a'u teuluoedd am faterion sydd yn ymwneud a chrefydd yn ein bywydau.
- Sicrhau fod mwyafrif y plant yn deall termau crefyddol ac yn gallu defnyddio nhw yn synhwyrol yn eu gwaith ysgrifnnu estynedig
- Parhau i osod MPll i gynnwys sgiliau pwnc yn ogystal a llythrennedd a rhifedd

| Rhagorol | | Da | x | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

| Addoli ar y Cyd |
|---|

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd? | | |
|---|---|---|
| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | **Ydy x** | **Nac ydy** |

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94), Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru, Mehefin 2012).

**Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

Mae plant yn cael cyfle i fod yn cymryd rhan arweiniol yn y gwasanaethau boreol yn ogystal a thymhorol megis Nadolig a Diolchgarwch. Mae bron pob un hefyd wedi bod yn rhan o gynulleidfa neu rhan o wasanaethau cymunedol. Gwneir defnydd o aelodau o'r eglwys leol i gyflwyno gweithgarwch "Agor y llyfr" yn wythnosol sydd yn gwella dealltwriaeth y plant o storïau'r Beibl.

Bydd gwasanaethau yn cael eu arwain gan athrawon a phennaeth yr ysgol.

Defnyddir ystod eang o adnoddau ac arteffactau, lluniau a phosteri i egluro negeseuon y gwasanaethau.

Gwelwyd fod storïau boreol y gwasanaeth yn dilyn themâu y dosbarthiadau e.e. hanes Dr Barndo wrth ddilyn thema cartrefi a llochesi. Mae adrodd hanes arweinwyr crefyddol, deall moeswersi wrth eu trafod yn rheolaidd yn ogystal a gweddiau mae'r plant wedi ei ysgrifennu eu hunain, yn cael effaith gadarnhaol iawn ar ddealltwriaeth y plant o bwysigrwydd crefydd yn eu bywydau.

Trefnir gwasanaeth dyddiol yn yr ysgol i cyfnod sylfaen a Cyfnod allweddol 2 gyda amrywiaeth o blant neu pobl yn arwain yn rheolaidd

Mae tueddiad dros gyfnod o 4 mlynedd i blant fod yn fwy parod i ymateb yn gyhoeddus.

Gwelir gwelliant mewn agwedd llawer o'r plant wrth fynychu adeilad crefyddol megis Eglwys st Cadfan a chapeli lleol.

Mae'r ysgol yn cefnogi nifer fawr o elusenau lleol, cenedlaethol a trawsgyfandirol yn rheolaidd pob tymor.

Cyflwynir gwasanaethau penodol ar adegau arbennig megis Dydd Santes Dwynwen, Diwrnod plant mewn angen, Dydd gŵyl Ddewi ac yn y blaen.

**Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

- Mae angen parhau i chwilio am gyfleoledd i blant fod yn rhan anatod o wasanaethau boreol yr ysgol.
- Annogir rhieni i fod yn rhan o oedfaon achlysurol.
- Parhau i ddefnyddio cyfnod ar ddiwedd gwasanaeth i allu rhoi canmoliaeth i blant am nodweddion da o ymddygiad tuag eraill yn ogystal a nhw eu hunain megis gwasanaeth Seren.
- Angen parhau i sicrhau fod y plant yn gwybod o pa llyfr yn y Beibl y mae storïau yn dod .e.e stori Daniel = hen destament llyfr Daniel. Y gwynfydau testament newydd; hanes yr Iesu Testament newydd.

| **Rhagorol** | | **Da** | x | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Llofnod: Menna Wynne-Pugh (Pennaeth)

Dyddiad: 5.1.17

**Enw'r Ysgol:** **Ysgol Rhiwlas** **Cyfeiriad:Waun Pentir, Bangor, Gwynedd LL57 4EH**

| **Addysg Grefyddol** |
|---|

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?**

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion, asesiadau athrawon a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol; Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009).

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**

- Mae arsylwadau gwersi a chraffu llyfrau (2015/16) yn nodi fod safonau Addysg Grefyddol yn dda ar draws y ddau gyfnod allweddol.
- Gall disgyblion blwyddyn 2 ddisgrifio rhai o'r credoau (Cristnogaeth / Islam) ac nodi rhai gwyliau ac arferion sydd yn berthnasol.
- Mewn gwersi mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da ac yn arbennig blwyddyn 3 a 4 (AAA) sydd yn gwneud cynnydd da wrth drafod cwestiynau mawr 'Oes rhaid marw?' yn sgil thema y Blits.
- Mae tystiolaeth dda o fewn tasg 'dyddiadur Ann Frank' fod bron pob disgybl wedi deall y tyndra emosiynol ac fod y disgyblion hynaf ymdrin yn arbennig gyda phynciau anodd.
- Mae mwyafrif y disgyblion yn gallu esbonio eu tasgau yn dda ac yn defnyddio termau addas ee colled, hiraeth ac yn y blaen. Gall y disgyblion mwyaf galluog esbonio sut mae eu teimladau eu gweithrediadau a'u barnau eu hunain effeithio ar eu bywydau a disgrifio sut mae safbwyntiau pobl eraill yn effeithio ar eu bywydau nhw ee y gwaith a wnaethpwyd ar hiliaeth ac eithafiaeth.
- Gall y disgyblion hynaf wneud cysylltiadau effeithiol rhwng y credoau a'r arferion crefyddol ee wrth son am ofalu am eu byd.
- Mae gan bron pob disgybl ddealltwriaeth dda o grefyddau eraill fel y gwelwyd yn eu gwaith ar grefyddau gwahanol (Iddewiaeth, Cristnogaeth, Bwdaeth, Islam)
- Mae bron pob disgybl CS (heblaw ADY) yn gweld pwysigrwydd fod 'helpu pobl eraill' yn bwysig, gallant hefyd adrodd nifer o straeon am Iesu Grist a'i ddamhegion.
- Mae asesiadau athrawon yn dangos fod bron pob y disgybl yn gwneud cynnydd da o fewn Addysg Grefyddol.

**Safonau medrau llythrennedd, rhifedd, TGCh a meddwl**

- Mae safonau y disgyblion yn dda wrth ymarfer eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh trwy Addysg Grefyddol. Mae'r disgyblion hynaf yn cyrraedd safon dda iawn wrth ymdrin ag adroddiadau ar hiliaeth, Martin Luther King ac yn y blaen ac yn arddangos fod eu medrau llythrennedd yn dda ar draws y cwricwlwm.
- Mae lleiafrif o'r disgyblion braidd yn chwithyg yn eu Cymraeg llafar ac ysgrifenedig ac yn mynnu defnyddio ymadroddion megis 'ambod mae'
- Gall mwyafrif o'r disgyblion ddarllen amrediad o ffynonellau crefyddol megis y Beibl ac mae'r disgyblion hynaf yn gwneud defnydd effeithiol iawn ac yn dadansoddi a dod i ganlyniad trwy bwyso a mesur gwahanol ffynonellau.
- Gwelwyd defnydd da o raddfa a mesur wrth greu cynllun o'r Synagog wrth ddatblygu eu medrau rhifedd fodd bynnag nid oes digon o dystiolaeth o'r defnydd o rif o fewn Addysg Grefyddol.
- Mae eu medrau TGCh yn dda iawn gyda'r disgyblion yn defnyddio TGCh i greu cyflwyniadau amrywiol ar bynciau a dathliadau crefyddol. Gwelwyd engrheifftiau da o'r disgyblion CS yn creu cyflwyniadau Puppet Pals ar y Pasg, ynghyd a CA2 yn defnyddio lluniau fideo o gyflwyniad a gafwyd yng Nghapel y Ffynnon i greu cyflwyniad ar y Pasg.
- Mae'r disgyblion yn hyderus yn defnyddio nifer o adnoddau a chyfarpar TGCH yn annibynnol ac ar y cyd gan gynnwys pc, ipad, mac mini, raspberry pi(5 a 6) er mwyn datblygu eu sgiliau.
- Mae'r holl ddisgyblion yn defnyddio TGCh gan gynnwys y We yn hyderus i ddarganfod gwybodaeth berthnasol a dewis a dethol yr hyn sy'n berthnasol.
- Mae bron pob disgybl yn defnyddio asesu ar gyfer dysgu a medrau meddwl yn effeithiol, gwna'r disgyblion hyn ddefnydd effeithiol hefyd o'r olwyn TASC er mwyn cynllunio eu tasgau. Nododd arolwg ESTYN 2016 fod disgyblion hynaf yr ysgol yn effeithiol iawn o ran eu medrau meddwl.

**Materion i gael sylw**

- Datblygu y defnydd o rif o fewn Addysg Grefyddol (blaenoriaeth CDY 2016/17)

| **Rhagorol** | | **Da** | ✔ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?**

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol, Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009.

**Yr addysgu mewn addysg grefyddol: cynllunio ac amrediad o strategaethau**

- Dengys y cynlluniau gwaith a llyfrau'r disgyblion bod yr ysgol yn paratoi gweithgareddau addysg grefyddol cymwys sydd yn bodloni gofynion y maes Llafur Cytun lleol.
- Mae gan yr athrawon wybodaeth dda a chyfoes am y pwnc ac yn llwyddo i gyflwyno gwersi symbylus a llwyddianus.
- Maent yn cynllunio yn fanwl ac mae nod ac amcan yn cael ei osod ar lafar ac yn ysgrifenedig.
- Mae arsylwadau gwersi yn nodi fod yr addysgu yn dda, tasgau wedi eu gwahaniaethu yn addas i oed a gallu y disgyblion. Mae holi treiddgar yn digwydd ar lefel grwp, ac mae cyfleon da i ddisgyblion efallai y gellir gwneud hyn yn fwy cyhoeddus er mwyn rhannu y wybodaeth a herio gweddill.
- Mae arsylwadau gwersi yn nodi fod y tasgau yn addas i oed a gallu y disgyblion ac wedi eu gwahaniaethu ar gyfer y gwahanol flynyddoedd. Defnyddir iaith safonol gan ysgogi a holi plant trwy ddefnyddio cwestiynau caeedig ac ychydig o gwestiynau agored. Ceir cyflwyniadau da ble mae disgyblion yn weithredol ac yn derbyn y cyfle i adfyfyrio ar yr hyn a wnaethpwyd yr wythnos flaenorol. Gwneir defnydd da o asesu ar gyfer dysgu trwy bartneriaid trafod, a cheir casgliad effeithiol ble mae cyfle i'r plant gasglu ynghyd yr hyn a ddysgwyd trwy ddefnyddio dull lindysyn er mwyn myfyrio ar y tasgau a chant y cyfle i adrodd nol. Ceir hefyd gwahaniaethu effeithiol ar gyfer disgyblion ADY 3 a 4.
- Rhoddir cyfleon effeithiol i'r disgyblion ymchwilio i bynciau amrywiol ee yn y gwaith ar Gymorth Cristnogol a gwelwyd esiamplau da o'r disgyblion yn cael rhyddid i gyflwyno gwybodaeth mewn modd o'u dewis hwy ee Pwer Bwynt / fideo
- Mae gan yr ysgol ystod dda o adnoddau yn lyfrau ac adnoddau / artiffactau er mwyn diwallu gofynion Pobl, Credoau a Chwestiynau' y CS a Addysg Grefyddol CA2.
- Mae adroddiad craffu ar lyfrau ac adroddiad ESTYN 2016 yn nodi fod athrawon yn ymateb yn effeithiol i waith disgyblion gan gynnig adborth adeiladol o ran y pwnc ac o ran cywirdeb iaith.
- Yn y CS cynllunir yn effeithiol i gyflwyno straeon o'r Beibl yn wythnosol i'r disgyblion a gallant adalw y straeon hyn yn effeithiol.
- Prin fodd bynnag yw'r dystiolaeth o'r defnydd o rif o fewn Addysg Grefyddol o ran cynllunio ac nid yw'r ddarpariaeth rif cystal a'r ddarpariaeth iaith.
- Cynllunir yn fwriadus i ddefnyddio TGCh yn effeithiol o fewn gwersi gyda defnydd o animeiddio (trwy ddefnyddio 'I can Animate" ) a chyflwyniadau ar iMovie sydd yn trafod agweddau a chwestiynau mawr.

**Darpariaeth ar gyfer y medrau: llythrennedd, rhifedd, TGCh a meddwl**

- Cynllunir yn fanwl ar gyfer datblygu y medrau trwy Addysg Grefyddol, yn enwedig o fewn llythrennedd, TGCh a meddwl.
- Digonol yw'r ddarpariaeth ar gyfer rhifedd ar hyn o bryd ac mae'n derbyn sylw fel rhan o flaenoriaethau y CDY

**Materion i gael sylw**

- Datblygu y ddarpariaeth ar gyfer rhif o fewn Addysg Grefyddol

| Rhagorol | | Da | ✔ | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Addoli ar y Cyd**

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd? | | |
|---|---|---|
| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | **Ydy ✔** | **Nac ydy** |

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94), Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru, Mehefin 2012).

**Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

- Cynhelir addoli ar y cyd yn rheolaidd, fel ysgol gyfan ac o fewn y dosbarth yn ddyddiol.

- Rhoddir cyfleon bwriadus er mwyn i'r disgyblion fyfyrio ar yr hyn a ddysgwyd ynghyd a chyfleon i gyfrannu i wasanaethau.
- Gwahoddir unigolion (ficar / pregethwr / swyddog ysgol Sul) i'r ysgol yn dymhorol i gymeryd gwasanaethau ysgol gyfan ynghyd ag ymweliadau a'r eglwys a'r capel lleol.
- Cynllunir gwasanaethau effeithiol sydd yn rhoi cyfle i'r disgyblion fyfyrio ar agweddau bob dydd, ee sut i fod yn ffrind da i eraill. Adlewyrchir hyn yn y ffordd mae'r disgyblion yn trin eu cyd ddisgyblion ac oedolion gyda parch a goddefgarwch.
- Ar hyn o bryd prin yw'r cyfleon a geir i'r disgyblion gymeryd rhan a chynllunio eu gwasanaethau eu hunain.

**Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

- Sicrhau fod y dosbarthiadau yn cymryd cyfrifoldeb dros gynnal gwasanaeth torfol yn wythnosol er mwyn sicrhau fod y disgyblion yn cynnal gwasanaethau.

| Rhagorol | | Da | ✔ | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Llofnod: Iwan A Davies (Pennaeth)

Dyddiad: 6/1/17

**Enw'r Ysgol: WAUNFAWR Cyfeiriad: WAUNFAWR , CAERNARFON, GWYNEDD LL55 4LJ**

| **Addysg Grefyddol** |
|---|

| **Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| • Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion, asesiadau athrawon a chyfweliadau â disgyblion. | | | | | | | |
| **Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol; Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 (2011) | | | | | | | |
| **Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**<br>Mae adroddiadau craffu ar lyfrau yn nodi bod gan y rhan fwyaf o'r disgyblion wybodaeth dda am ddathliadau tymhorol gwahanol grefyddau ar gwyliau sy'n bwysig i Gristnogion /Hindwiaid ac Iddewon. Mae'r gweithgareddau yn adlewyrchu gofynion y Maes Llafur Cytûn<br>Gwelir fod gwaith y dysgwyr yn datblygu'r medrau a nodir yn y Fframweithiau Llythrennedd, Rhifedd, a Chymhwysedd digidol Cenedlaethol. | | | | | | | |
| **Safonau medrau llythrennedd, rhifedd, TGCh a meddwl**<br>• Nodir yn yr adroddiadau monitro cydlynwyr llythrennedd /rhifedd a TGCH bod medrau y disgyblion yn datblygu'n dda a bod tystiolaeth ddigonol o ddisgyblion yn datblygu eu sgiliau rhifedd /TGCH mewn addysg grefyddol. | | | | | | | |
| **Materion i gael sylw** | | | | | | | |
| **Rhagorol** | | **Da** | x | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?** |
|---|
| • Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.<br>• Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.<br>• Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.<br>• Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol). |
| **Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol, Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 (2011) |

| **Yr addysgu mewn addysg grefyddol: cynllunio ac amrediad o strategaethau** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| • Dengys y cynlluniau gwaith a llyfrau'r disgyblion bod yr athrawon yn paratoi gweithgareddau addysg grefyddol sy'n bodloni gofynion y Maes Llafur Cytun lleol yn dda.<br>• Mae cylch o arsylwadau gwersi yn dangos bod llawer o'r gwersi yn darparu ystod o brofiadau addas a diddorol.<br>• Yn y gwersi da, mae'r athrawon yn ennyn chwilfrydedd disgyblion wrth iddynt ymchwilio'n annibynnol i gwestiynnau a thrywyddau ymholi.<br>• Yn y gwersi hyn mae'r cwestiynnu'n dreiddgar ac mae'r disgyblion yn magu hyder wrth gyfeirio at ffynonellau amrywiol er mwyn cynnig esboniadau newydd.<br>• Wrth graffu ar lyfrau'r disgyblion gwelir eu bod yn cael cyfleodd eithaf rheolaidd i adalw straeon crefyddol. | | | | | | | |
| **Darpariaeth ar gyfer y medrau: llythrennedd, rhifedd, TGCh a meddwl** | | | | | | | |
| • Nodir yn yr adroddiadau monitro cydlynnwyr llythrennedd /rhifedd a TGCH bod medrau y disgyblion yn datblygu'n dda a bod tystiolaeth ddigonol o ddisgyblion yn datblygu eu sgiliau rhifedd /TGCH mewn addysg grefyddol. | | | | | | | |
| **Materion i gael sylw**<br>Angen i bob athro yn CA2 i baratoi un weithgaredd AG cyfoethog pob hanner tymor, gall hon fod ar ffurf tasg ysgrifennu ymestynnol | | | | | | | |
| **Rhagorol** | | **Da** | x | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
| | | | | | | | |

| **Addoli ar y Cyd** |
|---|

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?** | | |
|---|---|---|
| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | **Ydy** | **Nac ydy** |
| **Cyfeiriadau: :** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94), Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru, Mehefin 2012). | | |
| **Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**<br>• *Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol parthed addoli ar y cyd.*<br>• *Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion ymweld ag addoldai lleol megis Eglwys Croes-y -Waun*<br>• *Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd i'r disgyblion holi arweinwyr crefyddol lleol sef y Swyddog Cymunedol sy'n ymweld å'r ysgol yn rheolaidd pob hanner tymor.*<br>• *Mae gweithgareddau elusennol rhyngwladol ac astudiaethau yn ymwneud â Masnach Deg o fewn y cwricwlwm yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygu dealltwriaeth y disgyblion o faterion cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd eang.* | | |

| |
|---|
| • *Caiff y disgyblion gyfleoedd i gydweithio gydag elusennau lleol a rhyngwladol eeBanc Bwyd Caernarfon ,Ymgyrch y Galon ,Masnach Deg, Action Aid ,Ymgyrch y Plentyn*<br>• *Mae sesiynau addoli ar y cyd yn gosod naws Gristnogol a moesol ac yn creu ethos myfyrgar buddiol.* |
| **Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**<br>• Darparu mwy o gyfleon i'r disgyblion i gyfrannu'n greadigol yn y sesiynau addoli ar y cyd. |

| **Rhagorol** | | **Da** | ✔ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Llofnod: Gwenan Williams (Pennaeth)

Dyddiad: Hydref 10fed 2016

**Cynllun Gweithredu CYSAG Gwynedd 2016-17**

| **Adroddiad Blynyddol CYSAG Gwynedd 2014-15** | **Camau Gweithredu 2016-17**<br>**ALl (Awdurdod Lleol)**<br>**BJ (Ymgynghorydd Her)**<br>**AC (Aelodau CYSAG)** | **Tystiolaeth** | **Deilliannau** | |
|---|---|---|---|---|
| Datblygu arweinyddiaeth dda ym maes addysg grefyddol ac addoli ar y cyd<br><br>Tudalen | • Cynnal gweithdy tymhorol i gydlynwyr AG (BJ)<br>• Cyflwyno amserlen a threfn hunan arfarnu (ALl)<br>• Craffu ar adroddiadau hunan arfarnu ysgolion a rhannu'r prif negeseuon yn yr adroddiad blynyddol. | • Canllawiau hunan arfarnu<br>• Amserlen a threfn hunan arfarnu.<br>• Adroddiadau Hunan arfarnu'r ysgolion<br>• Cofnodion CYSAG Gwynedd | • Bron bob un ysgol wedi cyflwyno hunan arfarniad o safonau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd erbyn Haf 2017.<br>• CYSAG wedi paratoi adroddiad crynodol tymhorol a blynyddol o safonau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd. | ☺<br>😐<br>☹ |
| Dyfodol Llwyddiannus (Argymhellion Donaldson) ac Addysg Grefyddol<br><br>Tudalen | • Cynrychioli Gwynedd mewn unrhyw drafodaethau cenedlaethol parthed datblygu'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu (ALl+ BJ + AC)<br>• Cyfrannu at drafodaethau lleol er mwyn cynllunio profiadau dysgu yn ymateb i'r Maes Llafur Cytun ag egwyddorion 'Dyfodol Llwyddiannus' (BJ+ALl+AC) | • Cofnodion CYSAG Gwynedd<br>• Gohebiaeth a chanllawiau CYSAG Gwynedd i ysgolion.<br>• Enghreifftiau o arferion da | • Addysg Grefyddol yn cael ystyriaeth lawn wrth i ysgolion adolygu'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu.<br>• Y ddarpariaeth ar gyfer addysg grefyddol yn dda neu'n well ym mhob ysgol.<br>• Safonau addysg grefyddol yn dda neu'n well ym mhob ysgol. | ☺<br>😐<br>☹ |
| Cefnogi athrawon uwchradd wrth gyflwyno manyleb TGAU newydd. | • Cefnogi athrawon uwchradd mewn unrhyw trafodaethau gyda CBAC neu Cymwysterau Cymru.<br>• Cefnogi gwaith Arweinydd Rhanbarthol AG TGAU (Mefys Jones)<br>• Annog pob adran TGAU AG i fanteisio ar y cyfleoedd I gyfrannu at y cydweithio lleol (Gwynedd a Mon) a rhanbarthol. | • Cofnodion CYSAG Gwynedd<br>• Gohebiaeth a chanllawiau CYSAG Gwynedd i ysgolion.<br>• Enghreifftiau o arferion da | • Athrawon AG ac ymgeiswyr AG TGAU yn teimlo'n hyderus wrth wynebu'r manyleb newydd.<br>• Adroddiadau hunan arfarnu ysgolion uwchradd yn nodi bod safonau a'r ddarpariaeth ar gyfer CA4 yn dda neu'n well;<br>• Canlyniadau TGAU Astudiaethau Crefyddol yn gyson dda neu'n well. | |
| Hwyluso Addoli ar y Cyd o ansawdd<br><br>Tudalen | • Sicrhau bod ysgolion yn cydymffurfio a'r gofynion statudol mewn perthynas ag addoli ar y cyd a darparu sesiynau addolir ar y cyd o ansawdd.<br>• Annog ysgolion i wahodd aelodau o CYSAG Gwynedd i fynychu sesiynau addoli ar y cyd | • Gohebiaeth i ysgolion<br>• Adroddiadau llafar aelodau CYSAG<br>• Cyfeiriadau tuag at addoli ar y cyd yn adroddiadau ESTYN | • Adroddiadau ESTYN yn nodi bod addoli ar y cyd yn dda.<br>• Pob ysgol yn cydymffurfio â'r gofynion statudol.<br>• Gwell dealltwriaeth ymhlith aelodau CYSAG o natur addoli ar y cyd mewn ysgolion. | ☺<br>😐<br>☹ |

BJ, Arweinydd System/System Leader GwE, Mehefin/June 2016

**Cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru,Siambr y Cyngor Sir Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin, 18 Tachwedd 2016 (10.30am – 3pm)**

***Wales Association of SACREs meeting, Carmarthenshire Council Chamber, Carmarthen,18 November 2016 (10.30am – 3pm)***

***Yn bresennol***

DRAFT

**Ynys Môn / *Anglesey***
Bethan James
Rheinallt A. Thomas

**Blaenau Gwent**
Gill Vaisey

**Pen-y-bontarOgwr / *Bridgend***
Edward Evans
Vicky Thomas

**Caerffili/ *Caerphilly***
Vicky Thomas
John Taylor
EnfysHawthorn
Janet Jones

**Caerdydd / *Cardiff***
Gill Vaisey
Janet Jones

**Sir Gaerfyrddin / *Carmarthenshire***
Cyng Emlyn Dole
Cyng Gwyneth Thomas
Cyng Jean Lewis
Helen Gibbon
Meinir Loader
Jane Thomas
Christine Rees
Mary Parry

**Ceredigion**
Alwen Roberts

**Conwy**
Phil Lord
Nicholas Richter

**Sir Ddinbych / *Denbighshire***
Phil Lord

**Sir y Fflint / *Flintshire***
Phil Lord

**Gwynedd**
Bethan James

**Merthyr Tudful / *Merthyr Tydfil***
Vicky Thomas

**Sir Fynwy / *Monmouthshire***
Gill Vaisey

**Castell-nedd Port Talbot / *Neath and Port Talbot***

**Casnewydd / *Newport***
Vicky Thomas
Huw Stephens

**Sir Benfro / *Pembrokeshire***
Mary Parry

**Powys**
John Mitson
Margaret Evitts

**Rhondda Cynon Taf**
Paula Webber
Mathew Maidment

**Abertawe / *Swansea***
Vicky Thomas
Brinley Jones
Alison Lewis

**Torfaen /Torfaen**
Vicky Thomas
Daniel Foster

**Bro Morgannwg / *Vale of Glamorgan***
Paula Webber
Dafydd Treharne

**Wrecsam / *Wrexham***
Samantha Jesson
Ruth Holden

**Sylwedyddion / *Observers***
Emlyn Dole (Cyngor Sir Gâr)
Tudor Thomas (Mudiad Addysg Grefyddol Cymru (MAGC)
Kathy Riddick (Dyneiddwyr Cymru)
Vaughan Salisbury (CYSAG Ceredigion)
Jean Lewis (Cyngor Sir Gâr CYSAG CAERFYRDDIN)
Gwyneth Thomas (Cyngor Sir Gâr CYSAG CAERFYRDDIN)

**Cofnodion / Minutes**

| | |
|---|---|
| **1. Cyflwyniad a Chroeso**<br>Croesawyd yr aelodau i Sir Gaerfyrddin gan Gadeirydd CCYSAGauC, Phil Lord. Croesawodd Arweinydd y Cyngor, Emlyn Dole, CCYSAGauC i Siambr y Cyngor. Mwynhawyd perfformiad gan gôr Ysgol Gynradd Llangennech. Dywedodd Emlyn Dole ei fod yn gefnogol i GYSAGau ac yn sylweddoli pwysigrwydd CCYSAGauC ac Addysg Grefyddol yng Nghymru mewn amser o newid addysgol. Dywedodd fod Sir Gaerfyrddin yn cymryd AG o ddifrif ac yn sicrhau addysg holistig, oedd â'r nod o ddatblygu empathi, goddefgarwch a pharch. Gan hynny mae'n cyflogi Ymgynghorydd Her i ddarparu hyfforddiant a chymorth ymarferol i weithredu AG yn effeithiol. | **1. Introduction and welcome**<br>Chair of WASACRE, Phil Lord, welcomed members to Carmarthenshire. The Leader of the Council, Emlyn Dole, welcomed WASACRE to the Council Chamber. Members enjoyed the performance of the choir from Ysgol Gynradd Llangennech. Emlyn Dole shared his support for SACREs and recognised the importance of WASACRE and of RE in Wales in a climate of educational change. He acknowledged that Carmarthenshire takes RE seriously and ensures a holistic education, which aims to develop empathy, tolerance and respect. As such it employs a Challenge Advisor to provide training and practical help to implement effective RE. |
| **2. Myfyrdod Tawel**<br>Arweiniodd PL yr aelodau mewn myfyrdod, a gofyn iddynt ystyried yr angen i weithio tuag at undod mewn cymunedau. Mae AG mewn sefyllfa i atgoffa pobl am y cyfrifoldeb hwn.<br>How | **2. Quiet reflection**<br>PL led a reflection, asking members to consider the need to work towards unity within communities. RE is in a position to remind people of this responsibility. |
| **3. Ymddiheuriadau**<br>Libby Jones, Jen Malcom, Tania ap Sion, Leslie Francis, Ernie Galsworthy, Sally Northcott | **3. Apologies**<br>Libby Jones, Jen Malcom, Tania ap Sion, Leslie Francis, Ernie Galsworthy, Sally Northcott |
| **4. Cyflwyniad PYCAG**<br>Rhoddodd Dr Llinos Jones, Pennaeth, Ysgol Gymraeg Bro Myrddin gyflwyniad ar addoli ar y cyd yn yr ysgol uwchradd. Mae gwasanaethau'n cael eu trefnu fel bod pob disgybl yn cael cyfle i gymryd rhan a chyflwyno gweithred ddyddiol o addoli ar y cyd. Maent yn rhannu syniadau ac yn dathlu llwyddiant yn ogystal â myfyrio. Yn ystod y cwestiynau, diolchwyd i'r Pennaeth gan aelod o CCYSAGauC a fu'n dysgu yn yr ysgol. Diolchodd PL ar ran CCYSAGauC a dywedodd nad oes gan ysgolion uwchradd newydd ddigon o ofod cymunedol ac y byddai'n anodd felly datblygu ymdeimlad o gymuned drwy ddod â'r holl ddisgyblion mewn ysgol at ei gilydd.<br>Cafwyd sylwadau a oedd yn sôn am y cyfraniad cadarnhaol y gall Addoli ar y Cyd ei wneud i brofiad disgybl mewn ysgol uwchradd a'r arfer da y gellid ei rannu o'r cyflwyniad a roddwyd gan Ysgol Bro Myrddin. | **4. NAPfRE presentation**<br>Dr. Llinos Jones, Headteacher, Ysgol Gymraeg Bro Myrddin presented on collective worship in the secondary school. Assemblies are organised so that all pupils have the opportunity to participate in and deliver a daily act of collective worship. They share ideas and celebrate success as well as reflect. During questions the Headteacher was thanked by a WASACRE member who had previously been a teacher at the school. PL expressed WASACRE's thanks and reflected that newly built secondary schools have no communal space and would, therefore, find it difficult to develop a sense of community via bringing all pupils in a school together.<br>Comments included the positive contribution collective worship could make to a pupil's experience in a secondary school and the good practice that could be shared from the presentation provided by Bro Myrddin. |
| **5. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn Y Rhyl, 23 Mehefin 2016**<br>Derbyniwyd y cofnodion fel adroddiad cywir o'r cyfarfod. Cynigiwyd gan Huw Stephens ac eiliwyd gan Edward Evans. | **5. Minutes of meeting held in Rhyl, 23 June 2016**<br>The minutes were accepted as a true record of the meeting. Proposed by Huw Stephens and seconded by Edward Evans. |
| **6. Materion yn Codi.**<br>Dywedodd VT fod y TGAU newydd wedi cael ei gymeradwyo a'i fod ar wefan CBAC. Dywedodd wrth CCYSAGauC fod pryderon wedi'u codi mewn CYSAGau | **6. Matters Arising.**<br>VT said the new GCSE had been approved and was on WJEC website. She informed WASACRE that concerns had been raised at SACREs that there were training |

| | |
|---|---|
| fod angen mwy o hyfforddiant gan fod cynnydd yn y cynnwys a mwy o bwyslais ar gysyniadau testunol. Yn ôl Dan Foster – Pennaeth oedd yn cynrychioli CYSAG Torfaen, mae costau hyfforddiant gan CBAC wedi codi'n sylweddol. Mae'n anodd ar ysgolion oherwydd y cyfyngiadau ariannol. Roedd Tudor Thomas yn cytuno ond dywedodd fod hyfforddiant ar gyfer y manylebau newydd am ddim. Gan fod cyllidebau ysgolion yn dynn, awgrymodd fod angen mynd at CBAC a dweud wrtho fod ganddo gyfrifoldeb dros ysgolion yng Nghymru yn arbennig gan mai dyma'r unig Fwrdd Arholi yng Nghymru. Mae CBAC yn cynnig un lle hyfforddiant am ddim i bob ysgol ar bedwar dyddiad yn ystod y flwyddyn academaidd hon. | issues as there was an increase in content and more emphasis on textual concepts. Dan Foster – Head teacher representing Torfaen SACRE expressed concern that the cost of training by the WJEC has risen rapidly. Schools are finding this difficult because of financial constraints. Tudor Thomas agreed but said that training for new specifications was free. He said schools are on tight budgets and that representation is needed to WJEC suggesting that it carries a responsibility for schools in Wales in particular as it is the sole Examination Board in Wales. The WJEC are offering one free training place for all schools on four dates during this academic year. |
| **GWEITHREDU:**Cytunodd PL i ddod o hyd i'r ddolen i Syniadau AG ar wefan Peniarth. Mae copïau sy'n mynd yn ôl cyn belled â 2000 wedi cael eu rhoi ar gael gan MAGC. Dylai fod gan bob Clerc CYSAG gopi o'r rhestr o gyhoeddiadau Syniadau AG i'w rhannu â'r CYSAG. | **ACTION:** PL agreed to find the link to RE Ideas on the Peniarth website. Copies going back as far as 2000 have been made available by REMW. Every SACRE Clerk should have a copy of the list of RE Ideas publications to share with SACREs. |
| **T 4. Eitem 4.** Anfonwyd y llythyr at Lynda a bu LJ yn cysylltu drwy e-bost â CBAC am y mater hwn. Ond, ni anfonwyd y llythyr at QW gan fod y Fanyleb yn cael ei hachredu yn ystod tymor yr Hydref. | **P 4. Item 4.** The reply was sent to Lynda and LJ maintained email contact with WJEC regarding this issue. However, the letter to QW was not sent due to the Specification being accredited during the Autumn term. |
| **T4. Eitem 5 Dyneiddwyr ar CYSAG** – Gwahoddwyd Kathy Riddick o Ddyneiddwyr Cymru i fynychu cyfarfod Sir Gaerfyrddin yn dilyn llythyr a anfonwyd ganddi i CCYSAGauC yn tynnu sylw at hyn. | **P4. Item 5 Humanists on SACRE** – Kathy Riddick from Wales Humanists has been invited to attend the Carmarthenshire meeting following a letter she sent to WASACRE highlighting this issue. |
| **T5: Eitem 5 - Incerts:** Hysbysodd GV yr aelodau fod LJ wedi gofyn am ddatganiad gan Lywodraeth Cymru y gallem ei ddefnyddio i ddweud wrth Incerts fod y disgrifyddion lefel o fewn y meysydd llafur cytûn yn statudol. Fodd bynnag, nid oedd yr ateb gan Lywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â'r cwestiwn gwreiddiol. Awgrymodd PYCAG y dylem fynd yn ôl at y ddeddfwriaeth wreiddiol sy'n datgan fod y Meysydd Llafur Cytûn yn statudol, ac felly bod y Lefelau oddi mewn iddynt yn statudol. Dywedodd Rheinallt Thomas fod swyddogion yn y Cynulliad yn ymwybodol fod gan bob CYSAG hawl i fabwysiadu'r Fframwaith Cenedlaethol, ond dim ond ar lefel leol gan GYSAGau unigol y gellir gwneud hyn yn lleol, nid yn genedlaethol. Dywedodd hefyd fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru symud ymlaen yn ofalus os yw AG am gael ei osod yn y dyniaethau gan fod yn rhaid i AG gael ei benderfynu'n lleol. Cynigiodd GV fod CCYSAGauC yn gwneud ail gais i LlC am ddatganiad ar statws maes llafur cytûn. Bydd y swyddogion yn mynd ar drywydd hyn. | **P5: Item 5 – Incerts:** GV informed members that LJ had requested a statement from Welsh Government that we could use to inform Incerts that the level descriptions contained within agreed syllabuses are statutory. However, the response from Welsh Government did not address the original question. NAPfRE suggest we should go back to the original legislation which states that the Agreed Syllabuses are statutory and, therefore, the Levels within them are statutory. Rheinallt Thomas said officers in the Assembly are aware that it is the right of every SACRE to adopt the National Framework, but that this can only be done legally at a local level by individual SACREs, not at a national level. He also said Welsh Government must go forward carefully if RE is placed within humanities as RE has to be determined locally. GV proposed that WASACRE should make a second request to WG for a statement on the status of an agreed syllabus. This will be followed up by officers. |
| **T6. Bagloriaeth Cymru -** Cafwyd trafodaeth am ganlyniadau peidio â chyflwyno AG statudol, sydd yn broblem fwy eang nag yng Nghyfnod Allweddol 4 yn unig. Mae yna gyfrifoldeb lleol i sicrhau fod y Maes Llafur Cytûn yn cael ei weithredu. Nodwyd fod rhai Ysgolion Arloesi yn ansicr am statws y Maes Llafur Cytûn. Dywedwyd wrth CCSYAGauC fod hyn wedi cael ei drafod yng nghyfarfod PYCAG. Mae rhai CYSAGau | **P6. Welsh Baccalaureate –** A discussion was held on the consequences of not delivering statutory RE, which isn't just an issue at Key Stage 4. There is a local responsibility to ensure the Agreed Syllabus is being implemented. It was noted that some Pioneer Schools are confused as to the status of the Agreed Syllabus. WASACRE were told that this was discussed at the NAPfRE meeting. Some SACREs intend to write to |

DRAFT

| | |
|---|---|
| yn bwriadu ysgrifennu at ysgolion i'w hatgoffa am y rhwymedigaeth i ddilyn y Maes Llafur Cytûn. Teimlwyd y dylai neges gyson gael ei hanfon gan bob CYSAG yng Nghymru. | schools reminding them of the obligation to follow the Agreed Syllabus. It was felt that there should be a consistent message sent out by SACREs across Wales. |
| **GWEITHREDU: Mae VT wedi ysgrifennu llythyr gan ei ChYSAG hi i ysgolion yn eu hatgoffa am eu gofynion statudol ac wedi cytuno i rannu hwn ag aelodau PYCAG fel y gallan nhw a'u CYSAGau ystyried a ddylent ysgrifennu rhywbeth tebyg at eu hysgolion.** | **Action: VT has written letters from her SACREs to schools reminding them of their statutory requirements and has agreed to share this with NAPfRE members so that they and their SACREs can consider whether to they should write something similar to their schools.** |
| Dywedodd GV mai dim ond 70 o ymatebion a gafwyd i'r Arolwg am Fagloriaeth Cymru a gofynnodd a fyddai CCYSGauC yn mynd ar ôl hyn er mwyn cael darlun llawnach. Roedd CYSAG Sir Fynwy yn teimlo y byddai'n werth cael darlun ehangach o'r hyn sy'n digwydd ledled Cymru, gan fynegi pryderon am yr ysgolion nad oedd wedi ymateb i'r arolwg. Holodd Dan Foster a allai camddealltwriaeth o natur statudol maes llafur cytûn olygu y byddai'r Ysgolion Arloesi yn gweithredu'n anghyfreithlon. Byddai'r llythyron gan GYSAGau yn helpu i'w hatgoffa am natur statudol y Maes Llafur Cytûn. Mae Swyddogion Awdurdod Lleol yn eistedd ar GYSAGau a nhw ddylai fod y cyswllt â'r ysgolion. Dywedodd un athro gynrychiolydd ei fod yn ymwybodol nad yw un ysgol yn ei ALl yn cydymffurfio â'r rhwymedigaeth statudol i AG oherwydd y Fagloriaeth. Gallai hwn fod yn llwybr llithrig ac mae angen i GYSAGau weithredu arno. Atgoffodd PL yr aelodau eu bod wedi cael eu cynghori gan Lywodraeth Cymru ynghylch y broses ar gyfer delio ag ysgolion nad ydynt yn cydymffurfio ac y dylai CYSAGau fod yn dilyn honno. Pryder Tudor Thomas oedd, oherwydd y newidiadau ym manylebau TGAU, fod y cynnwys wedi mynd yn drymach a bod hynny'n pryderu'r gymuned AG yng Nghymru gan mai dim ond AG arwynebol iawn y gall rhai ysgolion fod yn ei chynnig bellach. | GV raised the issue that only 70 responses were received to the Welsh Bacc Survey and asked whether WASACRE would follow this up to get a fuller picture. Monmouthshire SACRE felt it worthwhile to get broader picture of what is happening across Wales, expressing concern about schools that had not responded to the survey. Dan Foster asked whether a misunderstanding of the statutory nature of an agreed syllabus could mean that Pioneer Schools could be acting illegally. The letters from SACREs would help in reminding them of the statutory nature of the Agreed Syllabus. Local Authority Officers sit on SACRE and they should be the link to schools. A teacher representative said that he is aware that one school in his LA is not complying with its statutory obligation for RE because of the Welsh Baccalaureate. This could be a slippery slope and SACREs have to act on it. PL reminded members that they have been advised by Welsh Government of the process for dealing with schools that are not complying and that SACREs should be following that. Tudor Thomas raised concern that due to the changes in GCSE specifications, the content has become heavier and that is worrying for the RE community in Wales as schools may now only deliver token RE. |
| Cytunwyd na fyddai CCYSAGauC yn ail-anfon yr arolwgi ysgolion ond y dylai pob CYSAG ddilyn hyn gyda'u hysgolion eu hunain ac adrodd yn ôl i CCYSAGauC. Awgrymodd MM y dylai CYSAGau geisio sicrhau fod yr arolwg yn mynd yn syth at y pennaeth adran ac nid at ysgrifenyddes yr ysgol neu'r pennaeth. | It was agreed that WASACRE would not re-send the survey to schools but that each SACRE should follow-up with their own schools and feedback to WASACRE. MM suggested that SACREs should try to ensure that the survey goes directly to heads of department and not the school secretary or the headteacher. |
| **7. Cyflwyniad - Cefnogaeth i ysgolion i gyflwyno'r manylebau TGAU Astudiaethau Crefyddol newydd a rôl Ymarferwyr Arweiniol** | **7. Presentation - Support for schools in delivering the new GCSE specification for Religious Studies and the role of Lead Practitioners** |
| Cyflwynwyd gan Tonia Antinarzi sydd ar secondiad i ERW fel Arweinydd Dysgu pynciau Di-Graidd. Cyfrifoldeb Tonia yw gweithio gydag ymarferwyr arweiniol i sefydlu rhwydweithiau a sefydlu cefnogaeth i'r pynciau di-graidd. Sefydlwyd ymarferwyr arweiniol i AG ym mhob un o'r rhanbarthau. Maen nhw'n gweithio i greu adnoddau i gefnogi gweithredu TGAU newydd | Presented by Tonia Antinarzi who is seconded to ERW as Leader of Learning of Non-Core subjects. Tonia's responsibility is to work with lead practitioners to establish networks and to establish support for the non core subjects. Lead practitioners for RE have set up in each of the regions. They are working to create resources to support the implementation of the new |

DRAFT

| | |
|---|---|
| CBAC ac yn dechrau rhannu gwybodaeth ac adnoddau drwy HWB. Bydd yr adnoddau'n cael eu cyfieithu i'r Gymraeg ac yn cael Sicrhad Ansawdd. Mae'r ymarferwyr arweiniol yn awyddus i glywed gan athrawon dosbarth a hoffai weithio gyda'i gilydd i greu adnoddau. Roedd gan un cynrychiolydd CYSAG bryderon fod cynnwys trymach y fanyleb newydd yn golygu ei bod yn bosibl na fyddai'r graddau mor uwch os oes disgwyl iddynt gyflwyno TGAU Astudiaethau Crefyddol mewn un awr yr wythnos. Gofynnodd VT a oedd bwriad i rannu adnoddau yn ehangach i gonsortia eraill. Cadarnhawyd hyn gan Tonia a dywedodd fod cysylltiadau eisoes yn cael eu gwneud gydag EAS yng Nghasnewydd. Yn ôl Alison Lewis, roedd hi'n anodd cael ysgolion i ddefnyddio Hwb ond dywedodd fod yr adnoddau yno iddyn nhw. Dywedodd Tonia fod lansio'r Ymarferwyr Arweiniol yn digwydd ar 21 Hydref a'u bod eisoes wedi gwneud tipyn o gynnydd. Holodd aelod a gafodd y CYSGau ran yn y broses. Dywedodd Tonia eu bod, a bod ganddi ddiddordeb mewn clywed gan ysgolion sydd ag adrannau AG cryf, yn enwedig rhai cyfrwng Cymraeg. Bydd Tonia'n rhannu manylion yr ymarferwyr arweiniol dros AG gyda CYSAGauC. Mae'r ymarferwyr arweiniol wedi ysgrifennu at bob un o'r ysgolion yn yr ardal i dynnu sylw at eu gwaith. Maen nhw'n cynnal arolwg i fapio cryfderau.<br>Dywedodd BJ fod ymarferwyr arweiniol yng Ngogledd Cymru wedi bod yn trefnu eu hunain a pharatoi adnoddau. Gofynnodd a oeddent o bosibl yn dyblu'r gwaith yng Nghymru ac a fyddent yn elwa ar weithio gyda chydweithwyr ar draws Cymru. Dywedodd Tonia mai rhan o'i gwaith hi fyddai cydlynu cysylltiadau â chonsortia eraill. Holodd un aelod pwy fyddai'n Sicrhau Ansawdd. Atebodd Tonia, er na allai CBAC gadarnhau'r gwaith, byddent yn gallu gwirio eu bod ar y trywydd iawn. Dywedodd y bydden nhw hefyd yn defnyddio athrawon yn yr ardal ynghyd â Mary Parry, yr Ymgynghorydd. Dylai popeth fod yn barod erbyn diwedd Mehefin. Bydd Tonia'n mynd ar ôl y rheiny nad ydynt yn cymryd rhan. Holodd MM pryd fyddai'r llyfrau TGAU ar gael. Dywedodd mai'r broblem oedd mai â thair crefydd yn unig yr oedd y llyfrau'n ymdrin, sef Cristnogaeth, Iddewiaeth ac Islam. Cytunodd VT fod hyn yn broblem ac nad oes adnoddau i'r Crefyddau Dwyreiniol. Dywedodd Tonia fod y cwrs cyfan yn cael ei fapio allan ac y byddai'n ymdrin â phob crefydd. Cadarnhaodd PL y byddai cyflwyniad gan ymarferwr arweiniol yng nghyfarfod haf CCYSGauC ac y gallai pawb edrych ymlaen at gael diweddariad ar ddiwedd y broses. | WJEC GCSE and are beginning to share information and resources via Hwb. Resources will be translated into Welsh and Quality Assured. Lead practitioners are keen to hear from classroom teachers who would like to work together to create resources. A SACRE rep raised concerns that increased content of the new specification could mean that that grades may not be as high if they are expected to deliver GCSE Religious Studies in an hour a week. VT asked whether there was an intention to share resources wider to other consortia. Tonia affirmed this and said that links are already being made with EAS in Newport. Alison Lewis, a Lead Practitioner, highlighted the difficulty in getting schools to use Hwb but said that the resources are there if they want access to them. Tonia said that the launch of Lead Practitioners was on 21st Oct and they have already made a lot of progress. A member asked if there had been involvement from SACREs in this process. Tonia confirmed this and is interested in hearing from schools with strong RE departments, especially Welsh language schools. Tonia will share the details of the lead practitioners for RE with WASACRE. Lead practitioners have written to all schools in the area to draw attention to the work they are doing. They are conducting a survey to map strengths.<br>BJ said that lead practitioners in North Wales have been getting organised and preparing resources. She asked whether they are doubling up on the work in Wales and whether they would benefit from working with colleagues across Wales. Tonia said that she sees her job as coordinating links with other consortia. A member asked who would be Quality Assuring. Tonia advised us that, whilst the WJEC can't endorse the work, they were able to check that they were on the right track. She also reported to WASACRE that they would also be using teachers in the area and Mary Parry, the Advisor. Everything should be ready by the end of June. Tonia will follow up those who aren't involved. MM asked when the GCSE books would be made available. He highlighted the issue that the books only cover 3 religions Christianity, Judaism and Islam. VT agreed that there was an issue that there are no resources for Eastern Religions. Tonia said that the whole course was being mapped out and that it has covered all religions. PL said that there will be a presentation from a lead practitioner in summer WASACRE meeting and we look forward to an update at the end of the process. |
| **8. Diweddariadau:**<br>**Diweddariad: Adolygiad Cwricwlwm -** Adroddodd BJ fod nifer o ysgolion yn ceisio dychmygu sut bydd Cwricwlwm Donaldson yn edrych. Mae'r ysgolion arloesi'n gobeithio y bydd Cam 2 yn dechrau ym mis | **8. Updates:**<br>**Update: Curriculum Review** – BJ said that many of the schools are trying to imagine what the Donaldson Curriculum will look like. Pioneer schools are hoping that by January Step 2 will begin and they will develop |

DRAFT

| | |
|---|---|
| Ionawr ac y byddant yn datblygu modelau ar gyfer eu Meysydd Dysgu a Phrofiad ar draws Cymru. Hysbysodd BJ CCYSAGauC fod Phil Lord, Libby Jones a Gill Vaisey wedi cynrychioli CCYSAGauC mewn cyfarfodydd Rhanddeiliaid rheolaidd gyda Llywodraeth Cymru i drafod y cwricwlwm newydd. Bydd hefyd cyfarfod gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ar 14 Rhagfyr. Bydd rôl CCYSAGauC yn y broses o adolygu'r cwricwlwm yn cael ei drafod. | models for their Areas of Learning and Experience across Wales. BJ informed WASACRE that Phil Lord, Libby Jones and Gill Vaisey had represented WASACRE at regular Stakeholders' meetings with Welsh Government to discuss the new curriculum. There is also a meeting to be held with officers of the Welsh Government on 14th December. The role of WASACRE in the curriculum review process will be discussed. |
| Roedd gan un o'r aelodau bryder am y cynnydd araf o ran datblygu'r cwricwlwm newydd a dywedodd nad oedd Llywodraeth Cymru wedi rhoi awgrym am sut bydd y cwricwlwm newydd yn edrych. Tynnwyd sylw at y ffaith fod rhai ysgolion o dan yr argraff nad oes raid iddynt ddilyn y Maes Llafur Cytûn. Dywedodd BJ mai problem arall oedd diffyg amser i hyfforddi athrawon ar beth sy'n gwneud AG dda. Mae hyn yn arbennig o bwysig i'r rhai nad ydynt yn arbenigwyr. Awgrymodd BJ fod angen craffu ar gyfraniad yr ysgolion arloesi ac y byddai'n croesawu cael mewnbwn i hynny. Mae PYCAG yn paratoi dogfen o'r enw "Beth yw AG dda?" i rannu gydag ysgolion ac maent yn cyfarfod cyn diwedd y tymor i'w gorffen. Mae aelodau CCYSAGauC yn cael gwybod am gynnydd y cwricwlwm newydd ac yn adrodd yn ôl yn rheolaidd i'r aelodau. | A member highlighted a concern about the slow progress in the development of the new curriculum and said that Welsh Government has not given any suggestion of what the curriculum will look like. It was brought to the attention of WASACRE that some schools are under impression they don't have to follow the Agreed Syllabus. BJ also raised the issue of lack of time for teacher training on what good RE is. This is especially important to non-specialists. BJ suggested that we need to scrutinise the contribution of the pioneer schools and would welcome having an input into that. NAPfRE are preparing a document entitled "What is Good RE" to share with schools and are meeting before the end of term to finish this. Members of WASACRE are informed of the progress of the new curriculum and regularly feed back to members. |
| Roedd gan CCYSAGauC gyfarfod â'r Ysgrifennydd Addysg ar 2 Mawrth 2017 a bydd yn gofyn cwestiwn am statws y Maes Llafur Cytûn. | WASACRE have a meeting with The Minister for Education on 2nd March 2017 and will pose a question around the status of the Agreed Syllabus. |
| Derbyniodd CCYSAGauC lythyr gan GYSAG Sir Gaerfyrddin yn mynegi pryderon am le AG yn y cwricwlwm newydd a beth fydd rôl CYSAG. | WASACRE have had correspondence from Carmarthenshire SACRE raising concerns about what RE will look like in the new curriculum and what the role of SACRE will be. |
| Soniodd aelod am bryderon yr Eglwys Bresbyteraidd ynglŷn â'r ansicrwydd. Maent wedi anfon llythyr at GYSAG Sir Gaerfyrddin a CCYSAGauC yn ogystal ag i Kirsty Williams oherwydd eu bod yn poeni am sut bydd Cristnogaeth yn cael ei dysgu yn y cwricwlwm newydd. Awgrymodd RT y gallai Ysgolion Eglwys ei chael yn anodd bod yn rhan o'r cwricwlwm hwn ac y dylai'r Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig ddefnyddio'u cysylltiadau â Llywodraeth Cymru i drafod hyn. | A member spoke about the concerns of the Presbyterian Church about the uncertainty of what is happening. They have sent a letter to Carmarthenshire SACRE and WASACRE as well as to Kirsty Williams because they are concerned about how Christianity will be taught in the new curriculum. RT suggested that Church Schools might find it difficult to become part of this curriculum and that the Church in Wales and the Roman Catholic Church should use its links to the Welsh Government to discuss this. |
| Gofynnodd PL sut byddai AG yn gweithio os yw'n cael ei osod yn y maes llafur dyniaethau ac awgrymodd ei bod yn bwysig cadw llygad ar hyn. | PL asked how RE would work if it is based in the humanities curriculum and suggested that it is important to keep a watching brief on that. |
| **Diweddariad: Canllawiau ar Reoli'r Hawl i Dynnu Disgyblion o Addysg Grefyddol.** Dywedodd GV fod y ddogfen bellach yn destun ymgynghoriad gan amryw o sefydliadau, cynrychiolwyr ffydd ac addysgwyr. Mae hi wrth ei bodd â'r gefnogaeth a'r ymateb cadarnhaol i'r ddogfen. Cynhyrchwyd y ddogfen i ddechrau mewn ymateb i gais am ganllawiau yn y maes hwn gan bennaeth, ond mae'r ddogfen wedi esblygu ac mae bellach ar gyfer rhieni, athrawon a phawb sydd â diddordeb. Rhannodd GV y ddogfen gyda chydweithwyr | **Update: Guidance on Managing the Right of Withdrawal from Religious Education.** GV said that the document is now out for consultation with a variety of organisations, faith representatives and educationalists. She is delighted with the support and positive tone in which the document is being received. The document was initially produced in response to a request for guidance in this area from a headteacher, but the document has evolved and is now for parents, teachers and all parties. GV shared the document with |

DRAFT

| | |
|---|---|
| yn Lloegr yng Nghynhadledd REC a gwelwyd cryn dipyn o ddiddordeb. Bydd y ddogfen yn mynd at ddylunydd graffig i gael ei dylunio a'i hargraffu'n broffesiynol. Bydd angen ei chyfieithu ond dylai fod ar gael yn Nhymor yr Haf. | colleagues in England at the REC Conference and there had been lots of interest. The document will go to a graphic designer for professional design and printing. Translation is needed but it should be available in the Summer Term. |
| **Diweddariad ar y Cyngor Addysg Grefyddol** | **Update on REC** |
| Dywedodd GV fod Rudi Lockhart, Prif Swyddog Gweithredol y Cyngor Addysg Grefyddol, wedi bod yn siarad ag Aelodau Seneddol i sicrhau eu bod yn deall beth yw AG. Bu cynrychiolwyr y Cyngor yng Nghynadleddau'r Blaid Lafur a'r Blaid Geidwadol yn codi proffil AG ac yn adeiladu perthynas dda gydag ASau. Awgrymwyd y dylai CYSAGau lleol fod yn hysbysu eu gwleidyddion lleol am y safonau a gafwyd yn TGAU yn lleol gan y bydd hyn yn rhywbeth y byddant yn poeni amdano. | GV said that Rudi Lockhart, CEO of REC, has been actively talking to MPs to ensure they understand what RE is. REC reps attended Party Political Conferences for the Labour and Conservative Parties to raise the profile of RE and to build good relationships with MPs. It was suggested that local SACREs should be informing their local politicians about standards achieved in GCSE locally as this is something they will care about. |
| Mae gan REQM reolwr newydd, sef Linda Rudge. | REQM have a new manager, Linda Rudge. |
| Mae yna isafswm tanysgrifiad i'r Cyngor Addysg Grefyddol ond y swm sy'n cael ei roi ar gyfartaledd yw £370. | There is a minimum subscription for REC of £250 but the average being given is £370. |
| Cafwyd cyflwyniad ar adnoddau newydd yn y gynhadledd. | There was a presentation on new resources at the conference. |
| 1. Prosiect Deall Cristnogaeth: Nod y Gymdeithas Genedlaethol yw codi safonau mewn dysgu am Gristnogaeth yn dilyn arolwg lle daeth diffygion i'r amlwg. Crëwyd adnodd a phecyn hyfforddiant dau ddiwrnod ar gyfer athrawon a fydd yn cael y pecyn adnoddau ar ddiwedd y cwrs. Maen nhw'n hyfforddi pobl i gynnal y cyrsiau a bydd GV yn mynychu. | 1. Understanding Christianity Project: The National Society aim to raise standards in the teaching of Christianity following a survey which highlighted inadequacies. A resource and two day training package has been created for teachers who will be provided the pack of resources at the end of the course. They are training people to deliver the courses and GV will be attending. |
| 2. Deall Dyneiddiaeth: Mae'r Gymdeithas Ddyneiddwyr wedi creu gwefan sydd ag adnoddau ardderchog ar gyfer addysg foesol a chymdeithasol yn ogystal ag AG. Maent yn gobeithio cyfieithu'r adnoddau i gyd i'r Gymraeg. | 2. Understanding Humanism: The Humanist Association has created a website with excellent resources for moral and social education as well as RE. They are hoping to translate all resources into Welsh. |
| 3. Mae Bwrdd Dirprwyon Iddewon Prydain wedi cynhyrchu llyfr i gyd-fynd ag Iddewiaeth yn y TGAU Astudiaethau Crefyddol: *The Definitive Resource* gan Clive Lawton i helpu athrawon i godi safon addysg ar Iddewiaeth. | 3. The Board of Deputies of British Jews has produced a book to support Judaism GCSE Religious Studies: The Definitive Resource by Clive Lawton to help teachers with the quality of education on Judaism. |
| **Diweddariad: EFTRE** – Bu PL yn y gynhadledd ym mis Awst. Bu'r gynhadledd yn trafod sut mae AG yn edrych ar draws Ewrop ac mae'r rhan fwyaf o wledydd yn dilyn ymagwedd enwadol. Cafwyd trafodaeth ynghylch sut mae myfyrwyr yn tueddu i gael eu gweld fel nwyddau ar gyfer twf economaidd ac roedd dogfennau o systemau ar draws Ewrop yn dangos symudiad i ffwrdd o'r ymagweddau holistig ac ysbrydol. | **Update: EFTRE** – PL attended the conference in August. The conference discussed what RE looks like across Europe and most countries take a confessional approach. There was discussion about how students are seen as commodities for economic growth with documentation from systems across Europe showing a move away from wellbeing and holistic and spiritual approaches. |
| Bydd PL yn mynd i gyfarfod Pwyllgor Gwaith EFTRE yn y Ffindir. | PL will attend the Exec meeting of EFTRE next week in Finland. |
| **Diweddariad: cyfarfod cyswllt Llywodraeth Cymru–** Mae CCYSAGauC yn cadw mewn cysylltiad â LlC drwy gyfarfodydd rheolaidd. Bydd y cyfarfod nesaf ym mis Rhagfyr. Mae'r trafodaethau wedi cynnwys 10/94 a'r Maes Llafur Cytûn. Cafwyd trafodaeth hefyd am | **Update: Welsh Government contact meeting -** WASACRE are keeping in contact with WG via regular meetings. The next meeting is in December. Discussions have included 10/94 and the Agreed Syllabus. There has also been discussion on the Welsh Bacc and the new |

DRAFT

| | |
|---|---|
| Fagloriaeth Cymru a'r cwricwlwm newydd.<br>**Problem adroddiadau blynyddol** - Nid yw'r broblem hon fyth wedi cael ei datrys a bydd CCYSAGauC yn gwthio LlC i gadw ei chyfrifoldeb presennol i goladu'r adroddiadau fel yn ôl 10/94. Byddant yn hysbysu CCYSAGauC am eu cynnydd.<br>**9. Adroddiad o'r Pwyllgor Gwaith**<br>**Cofnodion o'r cyfarfod –**<br>**T1 GWEITHREDU 1 –Llythyr i Kirsty Williams**.<br>Mae Edward Evans wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn a fyddai newid y gyfraith o ran Addysg Grefyddol yn Lloegr yn cael effaith yng Nghymru - Beth yw pwerau gweddilliol San Steffan? Nid oedd yr ateb a gafwyd yn mynd i'r afael â'r cwestiwn yn ddigonol ac felly byddai'n ysgrifennu eto, y tro hwn at Kirsty Williams yn uniongyrchol.<br>**Tanysgrifiad y Cyngor Addysg Grefyddol** – Dywedodd PL fod gan CCYSAGauC yr hawl i danysgrifiad gostyngol i'r Cyngor gan ei bod yn gymdeithas fach, sef £99.<br>**Ymarferwyr Arweiniol**–Ceir cyflwyniad yn rhoi diweddariad am eu gwaith yng nghyfarfod yr Haf.<br>Dywedodd PL ei fod yn falch i weld fod John Mitson yn dal yn gallu bod yn bresennol ac y byddai CCYSAGauC yn sicr yn manteisio ar ei sgiliau.<br><br>Bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwaith ar**1 Chwefror.**<br>**10. Gohebiaeth**<br>1. Llythyr gan Neeter Baicher - am y llyfr *Unsung* gan Dr Darminder Singh Chada sydd yn codi ymwybyddiaeth ac yn talu teyrnged i'r milwyr Sicaidd yn yr Ymerodraeth Brydeinig.<br>2. Cytunodd Kirsty Williams, Ysgrifennydd y Cabinet ar Addysg i gyfarfod â CCYSAGauC ddydd Iau, 2 Mawrth, 2017 yn dilyn y cais am gyfarfod a anfonwyd gan LJ.<br>3. Ysgrifennodd Pam Evans, Prif Swyddog Gweithredol Peace Mala, yn hysbysu CCYSAGauC am y Peace Mala yn Eglwys Gadeiriol Llandaf ddydd Iau 20 Gorffennaf 2017.<br>4. Gohebiaeth gyda Kathy Riddick, Swyddog Datblygu, Dyneiddwyr Cymru yn trafod lle'r Dyneiddwyr ar CYSAG. Gwahoddwyd Kathy Riddick i fynychu CCYSAGauC fel sylwedydd er mwyn dechrau sgwrs gadarnhaol rhwng y ddwy gymdeithas. Roedd Kathy'n bresennol yn y cyfarfod ac eglurodd fod y Gymdeithas Ddyneiddwyr eisiau cael safbwyntiau anghrefyddol yn cael eu cynrychioli yn ogystal â pherthynas gadarnhaol gyda CYSAGau. Hysbysodd Kathy CCYSAGauC fod gan y Gymdeithas Ddyneiddwyr siaradwyr ar gael i fynd i ysgolion ar draws Cymru. Dywedodd Edward Evans fod Dyneiddiwr wedi bod yn mynychu CYSAG Pen-y-bont ar Ogwr yn ffyddlon ac wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr iddo. Fodd bynnag, atgoffodd | curriculum.<br>**Annual reports issue** – This issue is still unresolved and WASACRE will be pushing for WG to maintain its current responsibility to collate the reports as per 10/94. WASACRE will be kept up-dated on progress.<br><br>**9. Report from the Executive Committee**<br>**Minutes from meeting –**<br>**P1 Action 1 - Letter to Kirsty Williams**.<br>Edward Evans has written to Welsh Government to ask whether changing the law with regards to Religious Education in England would have an impact in Wales. – What are the residual powers of Westminster? The response received did not adequately address the question and he would therefore write again, this time directly to Kirsty Williams.<br>**REC subscription** – PL advised that as a small organisation WASACRE was entitled to pay a reduced subscription to REC and this would be £99.<br><br>**Lead Practitioners** - There will be a presentation updating us on the work done in the Summer meeting.<br>PL said that WASACRE is pleased to see John Mitson is still able to attend and that WASACRE will still draw upon his skills.<br><br>The next Executive is meeting next on the **1st Feb.**<br>**10. Correspondence**<br>1. Letter from Neeter Baicher – about the book Unsung by Dr Darminder Singh Chada raising awareness and paying tribute to the Sikh soldiers to the British Empire.<br>2. Kirsty Williams, Cabinet Secretary of Education agreed to a meeting with WASACRE on Thursday 2nd March, 2017 as a result of the request for a meeting LJ sent.<br>3. Pam Evans, CEO of Peace Mala, wrote informing WASACRE about the Peace Mala at Llandaff Cathedral on Thursday 20th July, 2017.<br><br>4. Correspondence with Kathy Riddick, Development Officer, Wales Humanists discussing the place of Humanists in SACRE. Kathy Riddick was invited to attend WASACRE as an observer in order to begin a positive dialogue between the two associations. Kathy was in attendance in the meeting and explained that the Humanist Society wanted non-religious views represented alongside religious views as well as a positive relationship with SACREs. Kathy informed WASACRE that the Humanist Society has school speakers available across Wales. Edward Evans said that a Humanist had faithfully attended and made a valuable contribution to Bridgend SACRE for number of years. However, he reminded WASACRE that we |

CCYSAGauC ei bod yn rhwym i gylchlythyr 10/94 ac felly, dim ond aelodau cyfetholedig all gynrychioli systemau cred anghrefyddol a dyna'r sefyllfa gyfreithiol o hyd. Dywedodd PL fod hwn yn fater i Lywodraeth Cymru. Dywedodd Kathy Riddick fod y Gymdeithas Ddyneiddwyr wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru ar y mater hwn.

5. Llythyr gan yr Eglwys Bresbyteraidd a anfonwyd ymlaen i CCYSGAauC gan GYSAG Sir Gaerfyrddin. Roedd yr Eglwys yn dymuno mynegi pryder am Addysg Grefyddol o fewn strwythur y cwricwlwm newydd arfaethedig. Cafwyd cyfieithiad o'r llythyr i CCYSGAauC.

**11. Unrhyw Fater Arall**

Mae Tania a Leslie wedi cyhoeddi deunyddiau ar Wefan y Santes Fair ac atgoffwyd CCYSAGauC am y cylchgrawn lefel A. Hyd yma ymddangosodd 10 rhifyn a chyhoeddwyd dros 40 o erthyglau. Mae dau adnodd newydd i'r Cyfnod Sylfaen ar gael am ddim o wefan Canolfan y Santes Fair. Mae'r gyfres 'Exploring Why' ac 'Exporing Our World' ar gael yn http://www.st-marys-centre.org.uk/resources

**Adnoddau Lefel A ar gyfer y cwricwlwm newydd -** Codwyd yr angen hwn gan MP ac awgrymodd y gellir ceisio cyllid i gael ymarferwyr arweiniol i greu adnoddau i'w rhannu yn yr un ffordd ag y mae ymarferwyr arweiniol yn gweithio ar adnoddau ar gyfer TGAU. Awgrymodd y gallai CCYSAGauC a/neu MAGC ystyried ariannu'r gwaith. Awgrymodd TT fod gan CBAC ei rhan yn hyn hefyd. Dywedodd fod gwerslyfrau ar gael a ysgrifennwyd gan brif arholwyr. Mae CBAC yn cyfrannu ac mae angen iddynt elwa ar hyn felly efallai y gallent weithredu fel cydlynydd. Dywedodd BJ fod yna grwpiau TGAU a Lefel A sy'n gweithio gyda'i gilydd yn wirfoddol. Byddai ganddi ddiddordeb mewn gweld grwpiau eraill yn gweithio gyda'i gilydd ar sail fwy ffurfiol a fyddai'n arwain at rwydwaith o rannu arfer da sy'n gallu cynhyrchu adnoddau a gefnogir yn llwyr gan CBAC. Byddai angen rhywun i reoli hyn. Gofynnodd PL pwy fyddai'n eu cyflogi. Awgrymodd un aelod ddefnyddio Hwb i rannu adnoddau. Awgrymwyd y gallai dau neu dri athro ei gydlynu. Trafododd JM y materion ariannol ac awgrymodd y byddai'n anodd i CCYSGauC ariannu hwn ar ei phen ei hun ac y byddai angen gweithio gydag eraill. Awgrymodd GV ofyn i MAGC os gallent ddarparu rhywfaint o gyllid ac y gellid meddwl am ofyn i fudiadau eraill helpu hefyd. Dywedodd RT nad oedd gweddill ariannol MAGC yn debyg i un CCYSAGauC ond y gellir trafod hyn yng nghyfarfod nesaf MAGC.

Teimlai TT yn gryf fod CBAC yn gorff sy'n gwneud elw a gan mai ei cynnyrch nhw sydd dan sylw, dylent fod yn cymryd rhan allweddol.

are bound by circular 10/94 and therefore, non-religious belief systems can only be co-opted members and this is still the legal position. PL said that this is an issue for Welsh Government. Kathy Riddick said that the Humanist Society has written to Welsh Government on this issue.

5. Letter from the Presbyterian Church forwarded to WASACRE by Carmarthenshire SACRE. They wished to voice their concern with regard to Religious Education within the structure of the proposed new curriculum. WASACRE translated the letter for our information.

**11. A.O.B.**

Tania and Leslie have published materials on the St Mary's Website and reminded WASACRE of the A Level journal. So far there have been 10 issues with over 40 articles published. There are two new Foundation Phase resources available for free from the St Mary's Centre website. The 'Exploring Why' series and 'Exploring Our World' series are available from http://www.st-marys-centre.org.uk/resources

**A Level resources for the new curriculum -**MP raised the issue of this need, suggesting that we might seek funding for lead teachers to create resources to share in the same way lead practitioners are working on resources for GCSE. She suggested WASACRE and/or the REMW might consider funding this work. TT suggested that the WJEC have a role to play in this. He said that there are textbooks available written by chief examiners. The WJEC is a benefactor and they need to benefit from it and could perhaps act as a coordinator. BJ said that there are new GCSE and A level and groups working together voluntarily. She would be interested in other groups working together in a more formal sense providing a network of sharing good practice who are able to produce resources which is fully endorsed by WJEC. Someone would need to manage this. PL asked who their employer would be. A member suggested using the Hwb to share resources. It was suggested that two or three teachers could coordinate it. JM discussed the financial issues and suggested that it would be difficult for WASACRE to fund this alone and would need to work with others. GV suggested asking REMW if they could also provide some funding and that we might also think about asking other organisations to help. RT said the residual balances of REMW do not match that of WASACRE but that this could be discussed in the next meeting of REMW.

TT felt strongly that as the WJEC is a profit making organisation and it is their product that they should be key players.

DRAFT

| | |
|---|---|
| **Penderfynodd CCYSAGauC yr hoffai weld hwn yn cael ei archwilio ymhellach gan nad oedd dim amser i'r golli.**<br>Cofnodion CCYSAGauC - Tynnodd RT sylw at y ffaith nad yw hen gofnodion CCYSAGauC yn cael eu storio ar y wefan. Dywedodd ei bod yn bwysig fod adroddiadau cyn gynadleddau ar y wefan ac mai mater bach fyddai gwneud hyn gyda'r dechnoleg fodern. **GWEITHREDU: PL i ymchwilio i'r sefyllfa.**<br>Hysbysodd PL CCYSAGauC fod Jen Malcolm yn ymddeol. Diolchodd iddi am ei chyfraniad i CCYSAGauC gan ddymuno'n dda iddi ar ei hymddeoliad ac i'r dyfodol.<br><br>**12. Dyddiad y cyfarfod nesaf:**3 Mawrth 2017, Sir Fynwy. Lleoliad: Neuadd y Sir, Brynbuga.<br>**Cyfarfodydd wedi hynny:**<br>• Haf 2017, Wrecsam<br>• Hydref 2017, Pen-y-bont ar Ogwr<br>• Gwanwyn 2018, Abertawe | **WASACRE voted that it would like to see this investigated further as speed is of the essence.**<br><br>WASACRE minutes – RT brought it to the attention of WASACRE that old WASACRE minutes are not stored on the website. He suggested that it is important that the reports of the previous conferences are on the website and that with modern technology it would be easy to do this. **Action: PL is to look into is situation.**<br>PL informed WASACRE that Jen Malcom is retiring. He thanked her for her contribution to WASACRE and expressed best wishes for her retirement and for the future.<br><br>**12. Date for next meeting:** 3rd March 2017, Monmouthshire. Venue: County Hall, Usk.<br>**Future meeting dates:**<br>• Summer 2017, Wrexham<br>• Autumn 2017, Bridgend<br>• Spring 2018, Swansea |

DRAFT

*Cadeirydd*/Chairman:
Philip Lord

*Ysgrifennydd*/Secretary:
Paula Webber
23, Bryngwyn Road, Newbridge, NP11 4GX

*e-bost*/e-mail: Paula.WebberConsultancy@gmail.com
*ffôn/ tel :* 07540 172596

23 Ionawr 2017

Annwyl Glerc CYSAG,

Gan ddilyn ein proses flynyddol arferol, rwyf yn ysgrifennu i wahodd CYSAGau i gynnig enwebiadau am aelodau newydd i Bwyllgor Gwaith CCYSGAU Cymru ac am swydd yr Is Gadeirydd. Byddwn yn ddiolchgar pe bai'ch CYSAG chi yn trafod unrhyw enwebiadau y dymunant eu cynnig yn eu cyfarfod CYSAG yn nhymor y gwanwyn. Sylwer, os yw'ch CYSAG yn cael ei gynrychioli ar y Pwyllgor Gwaith yn barod, ac eithrio Ysgrifennydd, Ysgrifennydd Cynorthwyol a Thrysorydd, yn ôl Cyfansoddiad CCYSAGauC, ni fyddwch yn gallu enwebu rhywun o'ch CYSAG chi y tro hwn.

Ynghlwm y mae ffurflen y dylid ei llenwi a'i dychwelyd i mi yn y cyfeiriad e-bost/post uchod erbyn **Dydd Gwener 31 Mawrth 2017**. Byddaf yn anfon y rhestr enwebiadau i chi cyn Dydd Gwener 28 Ebrill 2017, fel y gall eich CYSAG eu trafod yng nghyfarfod tymor yr haf mewn pryd ar gyfer y bleidlais yng Nghyfarfod Blynyddol y Gymdeithas ym mis Gorffennaf.

Sylwch bod disgwyliad y bydd enwebeion ar gael i fynychu cyfarfodydd gweithredol yn rheolaidd dylent fod yn llwyddiannus yn yr etholiad yn y CCB ym mis Gorffennaf.

Hoffem ddiolch i chi a'ch aelodau am eich cymorth yn y mater hwn.

Yn gywir,

Paula Webber
**Ysgrifennydd Cymdeithas CYSAGau Cymru**

# RHESTR AELODAU'R PWYLLGOR GWAITH - MEDI 2016/17

# LIST OF EXECUTIVE MEMBERS SEPTEMBER 2016/17

Philip Lord- Sir Fflint / Flintshire (Cadeirydd/Chair)

Edward Evans- Pen-y-bont ar Ogwr / Bridgend (Is-gadeirydd/Vice Chair)

Tania ap Sion- Wrecsam / Wrexham (Cyn-Gadeirydd / Immediate Past Chair)

Paula Webber- RCT (Ysgrifenydd / Secretary)

Libby Jones- Wrecsam / Wrexham (Ysgrifennydd Cynorthwyol / Swyddog Cyswllt Llywodraeth Cymru / Assistant Secretary/ Welsh Government Liaison officer)

John Mitson- Powys (Trysorydd /Treasurer)

Bethan James- NAPfRE

1. Vicky Thomas- Torfaen –cyfnod y swydd /period of office 2014-2017

2. Gill Vaisey- Sir Fynwy / Monmouthshire (REC Rep for WASACRE)- cyfnod y swydd / period of office 2014-2017

3. Y Cyng. / Cllr Ernie Galsworthy- Merthyr Tydfil – cyfnod y swydd /period of office 2015-2018

4. Mathew Maidment- RCT- cyfnod y swydd / period of office- 2016- 2019

5. Huw Stephens- Casnewydd / Newport – cyfnod y swydd / period of office 2016- 2019

6. Mary Parry- Caerfyrddin / Carmarthenshire –cyfnod y swydd / period of office 2016- 2019

Seddi gwag o Gyfarfod Blynyddol Cymdeithas CYSAGau Cymru Gorffennaf 2017 / Vacant seats as of WASACRE AGM July 2017

Cwrowm yw 5 aelod / Quorum is 5 members

Pleidlais fwyafrifol yn cyfrif / Majority vote will count

**Enwebiadau ar gyfer Pwyllgor Gwaith CCYSAGC/**
***Nominations to WASACRE Executive Committee***

**2017**

| **Enwebiad / Nomination** | **Enw / Name** | **ENW CYSAG / SACRE NAME** |
|---|---|---|
| Pwyllgor gwaith/ Executive Committee | | |
| Is-gadeirydd / Vice Chair | | |